COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

Comisiwn Ffiniau
Llywodraeth Leol
i Gymru

Local Government
Boundary Commission
for Wales

AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL DINAS A SIR ABERTAWE

ADRODDIAD A CHYNIGION

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL DINAS A SIR ABERTAWE

ADRODDIAD A CHYNIGION

1. CYFLWYNIAD

2. CRYNODEB O'R CYNIGION

3. CWMPAS AC AMCAN YR AROLWG

4. CYNIGION DRAFFT

5. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT

6. CYNIGION DRAFFT PELLACH

7. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT PELLACH

8. ASESIAD

9. CYNIGION

10. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL

11. CYDNABYDDIAETHAU

12. Y CAMAU NESAF

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
CAERDYDD
CF10 3BE
Rhif ffôn: (029) 2039 5031
Rhif ffacs: (029) 2039 5250
E-bost: cflll.cymru@cymru.gsi.gov.uk
www.cflll-cymru.gov.uk

Carl Sargeant AC
Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cynulliad Cymru

1. CYFLWYNIAD

1.1 Rydym ni Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn) wedi cwblhau'r arolwg o Ddinas a Sir Abertawe yn unol â'ch Cyfarwyddyd i ni dyddiedig 19 Rhagfyr 2007 (Atodiad 1).

2. CRYNODEB O'R CYNIGION

2.1 Cynigiwn:

- fod y ffin rhwng Cymunedau Birchgrove, Llandeilo Ferwallt, Bonymaen, Castell, Clydach, Cocyd, Cwmbwrla, Dyfnant, Gorseinon, Pengelli-ddrain a Waungron, Glandŵr, Llangyfelach, Llanrhidian Uchaf, Llansamlet, Llwchwr, Treforys, Mynyddbach, Penderi, Penllergaer, Pennard, Pontlliw a Thircoed, Townhill a Chilâ Uchaf gael eu hadlinio i ddilyn y ffiniau a ddangosir mewn gwyrdd ar y mapiau yn Atodiadau 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25 a 26.

3. CWMPAS AC AMCANION YR AROLWG

3.1 Diben yr arolwg yw ystyried a ddylai'r Comisiwn, er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, gynnig newidiadau i'r ffiniau cymunedol presennol. Cynhelir yr arolwg dan ddarpariaethau Adran 55 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (y Ddeddf).

Gweithdrefn

3.2 Mae Adran 60 y Ddeddf yn nodi canllawiau gweithdrefnol y dylid eu dilyn wrth gynnal arolwg. Yn unol â'r arweiniad hwnnw, ar 9 Ionawr 2008 gwnaethom ysgrifennu at bob Cyngor Tref a Chymuned yn Ninas a Sir Abertawe, yr Aelod Seneddol ar gyfer yr etholaethau lleol, Aelodau'r Cynulliad ar gyfer yr ardal, a phartïon eraill â diddordeb i roi gwybod iddynt am ein bwriad i gynnal yr arolwg a gofyn am eu safbwyntiau rhagarweiniol. Hefyd, gwnaethom gyhoeddi ein bwriad i gynnal yr arolwg mewn papurau newydd lleol sy'n cael eu dosbarthu yn yr ardal a gofyn i'r Cynghorau arddangos hysbysiadau cyhoeddus. Rhoddwyd hysbysiad am gychwyn yr arolwg a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cynrychiolaethau (14 Mawrth 2008) ar wefan y Comisiwn.

4. CYNIGION DRAFFT

4.1 Mewn ymateb i'n gwahoddiad cychwynnol, cawsom gynrychiolaethau gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe; Cyngor Cymuned Clydach; Cyngor Tref Gorseinon, Cyngor Cymuned Tre-gŵyr; Cyngor Cymuned Pengelli-ddrain a Waungron; Cyngor Cymuned Llanilltud Gŵyr; Cyngor Cymuned Cilâ; Cyngor Cymuned Llangyfelach; Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf; Cyngor Tref Llwchwr; Cyngor Cymuned Mawr; Cyngor Cymuned Penllergaer; Cyngor Cymuned Pontlliw a Thircoed; Cyngor Cymuned Rhosili; Cyngor Cymuned Cilâ Uchaf; Ymddiriedolaeth Penllergare, Independents@Swansea a dau gynghorydd lleol. Yn ein cynigion drafft a gyhoeddwyd ar 30 Medi 2008, gwnaethom ystyried y materion a godwyd yn y cynrychiolaethau hyn.

4.2 Awgrymwyd newidiadau i'r ffiniau sirol yn yr ardaloedd canlynol: Birchgrove, Bonymaen, Castell, Clydach, Cocyd, Cwmbwrla, Dyfnant, Gorseinon, Pengelli-ddrain a Waungron, Glandŵr, Llangyfelach, Llansamlet, Llwchwr, Treforys, Mynyddbach, Penderi, Penllergaer, Pontlliw a Thircoed, Townhill a Chilâ Uchaf.

Llangyfelach a Pontlliw a Thircoed

4.3 Tynnodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe ein sylw at y ffaith bod y ffin bresennol rhwng cymunedau Llangyfelach a Phontlliw a Thircoed yn gwahanu anheddiad Tircoed. Yn ogystal, awgrymodd Cynghorau Cymuned Pontlliw a Thircoed a Llangyfelach y dylid adlinio'r ffin yn yr ardal hon er mwyn cynnwys anheddiad cyfan Tircoed yng Nghymuned Pontlliw a Thircoed. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymuned Llangyfelach a Chymuned Pontlliw a Thircoed.

Llangyfelach a Mynyddbach

4.4 Tynnodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe ein sylw at y ffaith bod y ffin bresennol rhwng Cymunedau Llangyfelach a Mynyddbach yn gwahanu Ystad Bryn Hedydd, gan dorri trwy ddau eiddo. Amlygodd Cyngor Cymuned Llangyfelach yr anghysondeb hwn i'w ffin hefyd, gan awgrymu adliniad arall. Roeddem o'r farn, gan mai trwy Gymuned Llangyfelach y ceir mynediad i Ystad Bryn Hedydd, y dylid cynnwys Ystad Bryn Hedydd i gyd yng Nghymuned Llangyfelach. Fodd bynnag, nid oeddem yn cytuno ag awgrym Cyngor Cymuned Llangyfelach y dylid cynnwys pedwar eiddo ar Ffordd Llangyfelach i'r de o Fryn Hedydd yn yr ardal i'w throsglwyddo i Langyfelach, gan ein bod o'r farn bod y rhain yn hawdd eu cyrraedd trwy Gymuned Mynyddbach. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymuned Llangyfelach a Chymuned Mynyddbach.

Cocyd a Townhill

4.5 Tynnodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe ein sylw at y ffaith bod y ffin bresennol rhwng Cymunedau Cocyd a Townhill yn gwahanu ardal fusnes fach yn Webbon's Way a Meadow Street. Roeddem o'r farn y gellid mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn trwy adlinio'r ffin i ddilyn llinell Heol-y-Gors i'r de o'r ardal fusnes, gan

drosglwyddo'r ardal fusnes gyfan i Gymuned Cocyd. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymuned Cocyd a Chymuned Townhill.

Cocyd a Phenderi

4.6 Tynnodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe ein sylw at y ffaith nad yw'r ffin bresennol rhwng Cymunedau Cocyd a Phenderi yn dilyn llinell ddiffiniedig mwyach yn ardal Llwyn Teg a pharciau manwerthu Heol Pontarddulais a Fforest-fach. Roeddem o'r farn bod ardal Llwyn Teg yn estyniad o'r ardal breswyl gyfagos yng Nghymuned Cocyd ac yr ymddengys fod Parciau Manwerthu Heol Pontarddulais a Fforest-fach yn perthyn i Gymuned Cocyd hefyd. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymuned Cocyd a Chymuned Penderi i gynnwys ardal Llwyn Teg a Pharciau Manwerthu Heol Pontarddulais a Fforest-fach yng Nghymuned Cocyd.

4.7 Tynnodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe ein sylw at y ffaith nad yw'r ffin bresennol rhwng Cymunedau Cocyd a Phenderi yn dilyn llinell ddiffiniedig mwyach yn ardal Courtlands Way. Gwnaethom nodi mai'r unig ffordd o gael mynediad at yr ardal breswyl yn Courtlands Way a'r ffyrdd cyfagos oedd trwy Gymuned Cocyd. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymuned Cocyd a Chymuned Penderi i gynnwys ardal Courtlands Way ac ardaloedd cyfagos Beaufort Court, Richmond Way, Cranmer Court a Chantry Court yng Nghymuned Cocyd.

Glandŵr a Threforys

4.8 Tynnodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe ein sylw at y ffaith bod y ffin bresennol rhwng Cymunedau Glandŵr a Threforys yn gwahanu Ystad Ddiwydiannol Plasmarl. Roeddem o'r farn y dylid cynnwys Ystad Ddiwydiannol Plasmarl i gyd yng Nghymuned Treforys. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymuned Glandŵr a Chymuned Treforys.

Bonymaen a Llansamlet

4.9 Tynnodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe ein sylw at y ffaith bod y ffin bresennol rhwng Cymunedau Bonymaen a Llansamlet yn gwahanu Ystadau Diwydiannol Llansamlet a Winch Wen. Roeddem o'r farn bod y ddwy ardal i'w gweld yn estyniadau o ardaloedd tebyg yng Nghymuned Llansamlet ac y dylid cynnig y ddwy ystad ddiwydiannol gyfan yn y gymuned honno. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymuned Bonymaen a Chymuned Llansamlet.

Penllergaer a Llwchwr

4.10 Tynnodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe ein sylw at awgrym a gawsant gan Gyngor Cymuned Penllergaer a chynghorydd lleol i newid y ffin rhwng Cymunedau Penllergaer a Llwchwr er mwyn trosglwyddo Ysbyty Garngoch a'r ardal gyfagos o Gymuned Llwchwr i Gymuned Penllergaer. Yn ogystal â hyn, cyflwynodd y

Cynghorydd Wendy Fitzgerald gynrychiolaeth yn awgrymu'r un aliniad i'r ffin. Roeddem o'r farn bod gan y ffin awgrymedig y fantais o ddilyn llinell ddiffiniedig ffordd yr A484. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymuned Penllergaer a Chymuned Llwchwr.

Birchgrove a Chlydach

4.11 Tynnodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe ein sylw at awgrym a gawsant gan Gyngor Cymuned Clydach i adlinio'r ffin rhwng Cymuned Birchgrove a Chymuned Clydach i gynnwys pentref cyfan Glais yng Nghymuned Clydach. Hefyd, cyflwynodd Cyngor Cymuned Clydach gynrychiolaeth i'r Comisiwn yn awgrymu'r un adliniad i'r ffin. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y ffin bresennol yn cynnwys y rhan helaeth o bentref Glais yng Nghymuned Birchgrove. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Birchgrove a Chlydach er mwyn cynnwys pentref cyfan Glais yng Nghymuned Birchgrove.

Dyfnant a Chilâ Uchaf

4.12 Awgrymodd Cyngor Cymuned Cilâ Uchaf y dylid trosglwyddo tri eiddo yn Ddol Lane yng Nghymuned Cilâ Uchaf i Gymuned Dyfnant. Gwnaethom nodi mai'r unig ffordd o gael mynediad at yr eiddo hwn oedd trwy Gymuned Dyfnant. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Cilâ Uchaf a Dyfnant i drosglwyddo'r tri eiddo yn Ddol Lane o Gymuned Cilâ Uchaf i Gymuned Dyfnant.

Clydach a Threforys

4.13 Awgrymodd Cyngor Cymuned Clydach y dylid trosglwyddo ardal Caermawr a Phen-y-Rhedyn o Gymuned Treforys i'w Cymuned nhw. Gwnaethom nodi yr ymddengys fod ardal Caermawr yn estyniad o ardal adeiledig gyfagos debyg yng Nghymuned Clydach. Gwnaethom nodi hefyd yr ymddengys fod ardal Pen-y-rhedyn o natur wledig debyg i ardaloedd cyfagos eraill yng Nghymuned Treforys a bod modd cael mynediad ati trwy'r Gymuned honno. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Clydach a Threforys er mwyn trosglwyddo ardal Caermawr o Gymuned Treforys i Gymuned Clydach. Fodd bynnag, roeddem o'r farn y dylai ardal Pen-y-Rhedyn aros yng Nghymuned Treforys.

Llangyfelach a Threforys

4.14 Awgrymodd Cyngor Cymuned Llangyfelach y dylid trosglwyddo'r ardal i'r gorllewin o Pant Lasau Road yng Nghymuned Treforys i Gymuned Llangyfelach. Ymddengys i ni fod gan yr ardal fwy yn gyffredin ag ardaloedd gwledig cyfagos Llangyfelach nag ardal fwy trefol Treforys. Roeddem hefyd o'r farn bod Pant Lasau Road a Mynydd Gelliwastad Road yn darparu ffin ddiffiniedig, glir rhwng y ddwy gymuned. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Llangyfelach a Threforys er mwyn trosglwyddo'r ardal i'r gorllewin o Pant Lasau Road a Mynydd Gelliwastad Road o Gymuned Treforys i Gymuned Llangyfelach.

Townhill a Chastell

4.15 Yn ystod yr arolwg, gwnaethom nodi mai trwy Gymuned Townhill yn unig y gellir cael mynediad at eiddo yn Nicander Place yng Nghymuned Castell a bod yr eiddo wedi'u gwahanu oddi wrth ardaloedd cyfagos tebyg yng Nghymuned Castell. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Townhill a Chastell er mwyn trosglwyddo Nicander Place o Gymuned Castell i Gymuned Townhill.

Cwmbwrla a Phenderi

4.16 Yn ystod yr arolwg, gwnaethom nodi mai trwy Gymuned Penderi yn unig y gellir cael mynediad at eiddo ar Brenig Road yng Nghymuned Cwmbwrla. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Cwmbwrla a Phenderi er mwyn trosglwyddo Brenig Road o Gymuned Cwmbwrla i Gymuned Penderi.

Gorseinon a Phengelli-ddrain a Waungron

4.17 Yn ystod yr arolwg, gwnaethom nodi mai trwy Gymuned Pengelli-ddrain a Waungron yn unig y gellir cael mynediad at dri eiddo ym Mryn Car, Rose Cottage a Gors-fawr yng Nghymuned Gorseinon. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Phengelli-ddrain a Waungron er mwyn trosglwyddo'r eiddo hyn o Gymuned Gorseinon i Gymuned Pengelli-ddrain a Waungron.

Gorseinon a Llwchwr

4.18 Yn ystod yr arolwg, nodom fod y ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr yn ymddangos yn afreolaidd gan ei bod yn gwahanu ardal breswyl yng nghyffiniau Clos y Nant, Heol Pant y Dŵr a Heol Pen y Cae a bod mynediad at bob eiddo yn yr ardal hon trwy Gymuned Gorseinon. Hefyd, gwnaethom dderbyn cynrychiolaeth ynghylch yr ardal hon gan y Cynghorydd Gillian Evans, a oedd o'r farn bod Ward Llwchwr Uchaf yng Nghymuned Llwchwr yn ymestyn tua'r gogledd i ardal a ystyrir yn rhan o Orseinon. Nodom adliniad awgrymedig y Cynghorydd Evans i'r ffin yn yr ardal hon, ond roeddem o'r farn ei fod yn trosglwyddo gormod o Gymuned Llwchwr i Gymuned Gorseinon, gan gynnwys eiddo nad ydynt yn cael eu heffeithio gan yr anghysondeb uchod. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr i drosglwyddo'r eiddo hynny y ceir mynediad atynt trwy Gymuned Gorseinon o Gymuned Llwchwr i Gymuned Gorseinon.

4.19 Awgrymodd y Cynghorydd Gillian Evans fod y ffin rhwng Ward Dwyrain Gorseinon yng Nghymuned Gorseinon a Wardiau Kingsbridge a Garden Village yng Nghymuned Llwchwr, sy'n ymestyn i'r de i gynnwys ardal hen waith dur Bryngwyn, yn artiffisial braidd. Nodom fod yr ardal wedi'i dynodi ar gyfer datblygiad tai ac awgrym y Cynghorydd Evans y gallai'r datblygiad tai hwn naill ai aros yn Nwyrain Gorseinon neu gael ei gynnwys yng Nghymuned Llwchwr. Nodom hefyd, yng

Nghynllun Datblygu Unedol Cyngor Dinas a Sir Abertawe, y dynodir yr ardal hon i'w datblygu at ddefnydd cymysg (h.y. ar gyfer tai a chyflogaeth) ac y gallai'r ardal ymestyn i'r gogledd i'r ardal adeiledig gyfagos yn Nwyrain Gorseinon ac i'r de tuag at ardal adeiledig Kingsbridge. Ymddengys i ni, wedi i'r ardal gael ei datblygu, gallai adlinio'r ffin bresennol greu rhaniad artiffisial mewn ardal adeiledig barhaus a fyddai'n cael ei chynnwys yn fwy cyfleus o fewn yr un gymuned. Fodd bynnag, nodom fod llinell Afon Lliw i'w gweld yn ffin naturiol rhwng Cymunedau Llwchwr a Gorseinon, ac nad oedd yr ardaloedd i'r gogledd ac i'r de ddwyrain o hen waith dur Bryngwyn i'r dwyrain o Afon Lliw i'w gweld wedi'u cynnwys yn y datblygiad sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd i'r gorllewin o'r Afon. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr i drosglwyddo'r ardal i'r dwyrain o Afon Lliw o Gymuned Gorseinon i Gymuned Llwchwr.

Gorseinon a Phenllergaer

4.20 Yn ystod yr arolwg, nodom fod y ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Phenllergaer yn ymddangos yn afreolaidd, gan ei bod yn gwahanu adeilad sy'n perthyn i eiddo ar ben draw Windsor Terrace, Gorseinon. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Phenllergaer i drosglwyddo'r adeilad hwn o Gymuned Penllergaer i Gymuned Gorseinon.

Llanrhidian Uchaf

4.21 Tynnodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe ein sylw at awgrym a gawsant gan Gyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf y dylid tynnu Ward Y Crwys o Gymuned Llanrhidian Uchaf i ffurfio Cymuned ar wahân. Gwnaethom dderbyn gohebiaeth gan Gyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf hefyd yn awgrymu'r newid hwn, gan eu bod o'r farn nad oedd gan ardal fewndirol Y Crwys lawer yn gyffredin â'r ddwy Ward arall yn Llanrhidian Uchaf, sef Penclawdd a Llanmorlais, sy'n ardaloedd arfordirol. Awgrymodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe mai dewis arall fyddai trosglwyddo Ward Y Crwys i Gymuned Cilâ Uchaf. Gwnaethom ystyried y ddau awgrym ond, o'r wybodaeth a roddwyd i ni, nid oedd modd i ni benderfynu p'un a fyddai'r naill neu'r llall o'r newidiadau hyn er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, ni wnaethom unrhyw gynigion mewn perthynas â Chymuned Llanrhidian Uchaf, ond gwnaethom wahodd cynrychiolaethau pellach.

4.22 Tynnodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe ein sylw at awgrym a gawsant gan Gyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf bod y ffin rhwng Wardiau Penclawdd a Llanmorlais yng Nghymuned Llanrhidian Uchaf yn afreolaidd, gan ei bod yn gwahanu rhan uchaf Station Road, gan adael sawl eiddo yn Ward Penclawdd y gellir cael mynediad atynt drwy Ward Llanmorlais yn unig. Roedd hyn yn golygu bod rhaid i breswylwyr yr eiddo hwn deithio trwy Lanmorlais i bleidleisio ym Mhenclawdd. Cawsom ohebiaeth gan Gyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf hefyd yn awgrymu'r newid hwn i ffin y Ward. Roeddem o'r farn bod teilyngdod i'r awgrym hwn o ystyried y rhesymau a roddwyd, ond nid oedd modd i ni gynnig y newid hwn gan nad ydym yn cynnig unrhyw newid i ffin gymunedol Llanrhidian Uchaf a fyddai'n cyfiawnhau newid mor bwysig i drefniadau etholiadol y Gymuned honno. Felly, yn ein

Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, ni wnaethom unrhyw gynigion i newid y ffin rhwng Wardiau Penclawdd a Llanmorlais yng Nghymuned Llanrhidian Uchaf.

Penllergaer a Llangyfelach

4.23 Awgrymodd y Cynghorydd Wendy Fitzgerald ac Ymddiriedolaeth Penllergare y dylid trosglwyddo Coed Cwm Penllergaer i gyd ac ardal hen Ystad Penllergaer o Gymuned Llangyfelach i Gymuned Penllergaer. Hefyd, tynnodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe ein sylw at awgrym tebyg a gawsant. Ymddengys i ni fod y cynnig arfaethedig hwn i'r ffin yn cynnwys ychydig iawn o etholwyr ac yn cael ei gyflwyno am resymau hanesyddol yn bennaf yn hytrach nag er mwyn gwella llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Nodom hefyd fod y ffin bresennol yn dilyn llinell ddiffiniedig, glir Afon Llan a'i bod yn anodd canfod adliniad arall a fyddai hefyd yn hawdd ei adnabod. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, ni wnaethom unrhyw gynigion i newid y ffin rhwng Cymunedau Penllergaer a Llangyfelach.

Dyfnant a Chilâ Uchaf

4.24 Tynnodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe ein sylw at awgrym a dderbyniwyd gan Gyngor Cymuned Cilâ Uchaf y dylid trosglwyddo Clwb Rygbi Dyfnant o'u Cymuned nhw i Gymuned Dyfnant. Fodd bynnag, nodom mai trwy Gymuned Cilâ y ceir mynediad at Glwb Rygbi Dyfnant a bod ei leoliad mewn perthynas â'r ffin rhwng Cymunedau Dyfnant a Chilâ Uchaf yn ei gwneud yn anodd canfod adliniad priodol ar gyfer y ffin. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, ni wnaethom unrhyw gynigion i newid y ffin rhwng Cymunedau Dyfnant a Chilâ Uchaf yn ardal Clwb Rygbi Dyfnant.

Townhill

4.25 Awgrymodd The Independents @ Swansea y dylid diddymu Cymuned Townhill a chreu dwy gymuned newydd o'r enw Townhill a Mayhill yn ei lle. Ymddengys i ni y gallai fod rhywfaint o deilyngdod i'r awgrym hwn. Fodd bynnag, roeddem o'r farn y byddai angen cefnogaeth sylweddol ar newid tebyg. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, ni wnaethom unrhyw gynigion i newid Cymuned Townhill, ond gwnaethom wahodd cynrychiolaethau pellach.

Gorseinon a Llwchwr

4.26 Awgrymodd y Cynghorydd Gillian Evans y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymuned Gorseinon a Chymuned Llwchwr yn ardal West Street, er mwyn trosglwyddo'r eiddo ar hyd West Street o Gymuned Llwchwr i Gymuned Gorseinon. Fodd bynnag, nid oeddem yn fodlon bod y ffin bresennol yn cyflwyno anghysondeb sylweddol o ran llywodraeth leol gyfleus ac effeithiol. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, ni wnaethom unrhyw gynigion i newid y ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr yn ardal West Street.

4.27 Ni wnaethom unrhyw gynigion eraill ar gyfer newidiadau i'r ardaloedd cymunedol eraill yn Ninas a Sir Abertawe.

5. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT

5.1 Mewn ymateb i'n hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom dderbyn cynrychiolaethau gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Cymuned Clydach, Cyngor Tref Gorseinon, Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf, Cyngor Tref Llwchwr, Cyngor Cymuned Mawr, y Gwir Anrhydeddus Alan Williams AS, Edwina Hart AC, Andrew Davies AC, Plaid Lafur Ward Penderi, Plaid Lafur Dwyrain Abertawe Ward Townhill, 13 cynghorydd lleol, 8 preswylydd lleol gan gynnwys deiseb gyda 198 o lofnodion mewn perthynas â Chymuned Townhill, deiseb gyda 78 o lofnodion mewn perthynas â phentref Glais a deiseb gyda 402 o lofnodion mewn perthynas â Chymuned Llanrhidian Uchaf. Ceir crynodeb o'r cynrychiolaethau hyn yn Atodiad 2.

6. CYNIGION DRAFFT PELLACH

6.1 Mewn ymateb i'n Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, cawsom gynrychiolaethau gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a'r Cynghorydd Keith Marsh yn awgrymu newidiadau nad oeddem wedi'u hystyried yn flaenorol fel rhan o'r broses arolygu. Hefyd, rhoesem ystyriaeth bellach i awgrymiadau a gafwyd gan Gynghorau Cymuned Clydach a Mawr, nad oeddem wedi gallu adnabod yr ardaloedd dan sylw yn glir yn flaenorol. Yn ein Cynigion Drafft Pellach a gyhoeddwyd ar 3 Gorffennaf 2009, gwnaethom ystyried y materion a godwyd yn y cynrychiolaethau hyn.

Glandŵr a Chastell

6.2 Awgrymodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe y dylid trosglwyddo sawl eiddo ar Llangyfelach Road, Hafod Park, Pentremawr Road ac Odo Street yng Nghymuned Castell i Gymuned Glandŵr. Nodom fod yr eiddo hwn yn fwy hygyrch o Gymuned Glandŵr ac yr ymddengys eu bod yn gysylltiedig ag ardal gyfagos debyg yn y Gymuned honno. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Glandŵr a Chastell i drosglwyddo'r eiddo hyn ar Llangyfelach Road, Hafod Park, Pentremawr Road ac Odo Street o Gymuned Castell i Gymuned Glandŵr.

Llandeilo Ferwallt a'r Mwmbwls

6.3 Awgrymodd y Cynghorydd Marsh newid i'r ffin rhwng Cymuned y Mwmbwls a Chymuned Llandeilo Ferwallt i gynnwys Bae Caswell cyfan yng Nghymuned Llandeilo Ferwallt. Nodom nad yw'r newid awgrymedig yn cynnwys trosglwyddo etholwyr ac nad oedd yn welliant sylweddol i'r ffin bresennol. O ystyried hyn, nid oeddem yn sicr y byddai adliniad tebyg i'r ffin yn ddymunol er budd llywodraeth leol gyfleus ac effeithiol. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach, ni wnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Llandeilo Ferwallt a'r Mwmbwls.

Llandeilo Ferwallt a Phennard

6.4 Awgrymodd y Cynghorydd Marsh newid i symud eiddo yng Nghomin Barland, ynghyd ag adeiladau cyfagos, o Gymuned Pennard i Gymuned Llandeilo Ferwallt. Cynhaliwyd ymweliad safle â'r ardal a chanfuom fod y ffin arfaethedig wedi'i diffinio'n glir a chadarnhau mai trwy Gymuned Llandeilo Ferwallt y ceir mynediad at yr eiddo dan sylw. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Llandeilo Ferwallt a Phennard er mwyn trosglwyddo'r eiddo a'r adeiladau cyfagos yng Nghomin Barland o Gymuned Pennard i Gymuned Llandeilo Ferwallt.

6.5 Awgrymodd y Cyngorydd Marsh newid y ffin rhwng Cymunedau Llandeilo Ferwallt a Phennard er mwyn cynnwys dwy breswylfa ar y traeth yng Nghymuned Llandeilo Ferwallt, gan ei fod o'r farn mai drwy'r Gymuned honno y ceir mynediad at yr eiddo hwnnw. Er i'r Cynghorydd Marsh grybwyll Cliff Cottage, o'r hyn yr ydym wedi cael ar ddeall y ddau fwthyn y gellir eu hystyried 'ar y traeth' ym Mae Pwlldu yw Ship Cottage a Beaufort House. Ar ôl archwilio'r ardal, ymddengys i ni mai trwy Landeilo Ferwallt y ceir mynediad ffordd at yr eiddo hwn. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Llandeilo Ferwallt a Phennard er mwyn trosglwyddo Ship Cottage a Beaufort House o Gymuned Pennard i Gymuned Llandeilo Ferwallt.

Mawr a Llangyfelach

6.6 Awgrymodd Cyngor Cymuned Mawr y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Mawr a Llangyfelach ar hyd yr M4/Llangyfelach Road. Roedd y Cyngor yn ystyried yr M4 fel ffin rhwng yr ardaloedd i'r gogledd ac i'r de ohoni. Fodd bynnag, nodom nad oes unrhyw gyswllt da o ran ffyrdd rhwng y ddwy ardal sy'n croesi islaw ac uwchlaw'r M4. Roeddem o'r farn y byddai newid tebyg i'r ffin yn cynnwys trosglwyddo ardal sylweddol o Gymuned Llangyfelach i Gymuned Mawr, a bod yr ardal dan sylw o natur debyg i ardaloedd yng Nghymuned Llangyfelach i'r de o'r M4. Nid oedd yn ymddangos i ni fod gan drigolion yr ardal i'r gogledd o'r M4 gysylltiadau agosach â Chymuned Mawr nag sydd ganddynt â gweddill Cymuned Llangyfelach. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach, ni wnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Mawr a Llangyfelach.

Mawr a Phontarddulais

6.7 Awgrymodd Cyngor Cymuned Mawr y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Mawr a Phontarddulais i drosglwyddo ardal Cwm Dulais o Gymuned Pontarddulais i Gymuned Mawr. Ymddengys i ni fod ardal Cwm Dulais o natur wledig debyg i ardaloedd cyfagos Pontarddulais i'r gogledd ac i'r de. Mae Cwm Dulais hefyd yn agosach at aneddiadau ym Mhontarddulais nag unrhyw ardal debyg ym Mawr ac ymddengys y ceir mynediad at yr eiddo yn yr ardal honno trwy Bontarddulais. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach, ni wnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Mawr a Phontarddulais.

Clydach

6.8 Awgrymodd Cyngor Cymuned Clydach y dylid trosglwyddo ardal Baran Carnllechart, Gellionnen i'w Cymuned. Cawsom drafferth dod o hyd i'r ardal hon ar fapiau o Glydach ac o'r disgrifiad a roddwyd, a gwnaethom ystyried y posibilrwydd y gallai Baran Carnllechart, Gellionnen fod ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, ac felly y tu allan i gwmpas yr arolwg hwn. Felly, yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach, ni wnaethom gynnig newid ffin Clydach, ond gwnaethom wahodd esboniad pellach o'r ardal dan sylw.

7. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT PELLACH

7.1 Mewn ymateb i'n hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach, gwnaethom dderbyn cynrychiolaethau gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Cymuned Clydach, Cyngor Cymuned Llangyfelach, Cyngor Cymuned Pennard a phreswylydd o Glydach. Ceir crynodeb o'r cynrychiolaethau hyn yn Atodiad 3.

8. ASESIAD

Llangyfelach a Pontlliw a Thircoed

8.1 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig adlinio'r ffin rhwng cymunedau Llangyfelach a Phontlliw a Thircoed er mwyn cynnwys anheddiad cyfan Tircoed yng Nghymuned Pontlliw a Thircoed. Gwnaethom nodi bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn cefnogi'r cynnig hwn. O ystyried y gefnogaeth i'n Cynigion Drafft ar gyfer yr ardal hon, rydym o'r farn bod y newid arfaethedig er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymuned Llangyfelach a Chymuned Pontlliw a Thircoed fel y dangosir ar y map yn Atodiad 4.

Llangyfelach a Mynyddbach

8.2 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig adlinio'r ffin rhwng cymunedau Llangyfelach a Mynyddbach er mwyn cynnwys pob eiddo ym Mryn Hedydd yng Nghymuned Llangyfelach. Gwnaethom nodi bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn cefnogi'r cynnig hwn. O ystyried y gefnogaeth i'n Cynigion Drafft ar gyfer yr ardal hon, rydym o'r farn bod y newid arfaethedig er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymuned Llangyfelach a Chymuned Mynyddbach fel y dangosir ar y map yn Atodiad 5.

Cocyd a Townhill

8.3 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig adlinio'r ffin rhwng cymunedau Cocyd a Townhill er mwyn cynnwys yr ardal fusnes fach yn Webbons Way a Meadow Street, ynghyd â sawl eiddo ar Heol-y-Gors, yng Nghymuned Cocyd. Gwnaethom nodi bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe a'r Gwir Anrhydeddus

Alan Williams AS yn erbyn y cynnig hwn. Hefyd, gwnaethom dderbyn cynrychiolaethau gan y Cynghorwyr Veronyca Bates-Hughes, Keith Morgan a James Kelleher gan gyflwyno gwrthgynnig i gynnwys yr ardal fusnes fach yn Webbons Way a Meadow Street yng Nghymuned Townhill. Gwnaethom nodi bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn dweud y byddai'n well ganddynt gadw'r ffin gymunedol bresennol, ond roeddem o'r farn y dylid mynd i'r afael â'r anghysondeb yn y ffin gymunedol bresennol (gweler paragraff 4.5 uchod) os yn bosibl. Nodom fod y gwrthgynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyd Bates-Hughes, Morgan a Kelleher yn mynd i'r afael â'r anghysondeb yn y ffin heb effeithio ar unrhyw etholwyr, ac felly roeddem o'r farn y dylid mabwysiadu eu hadliniad arfaethedig i'r ffin. Felly, rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymuned Townhill a Chymuned Cocyd fel y dangosir ar y map yn Atodiad 6.

Cocyd a Phenderi

8.4 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig y dylid adlinio'r ffin rhwng cymunedau Cocyd a Phenderi er mwyn cynnwys ardal gyfan Llwyn Teg a Pharciau Manwerthu Heol Pontarddulais a Fforest-fach yng Nghymuned Cocyd. Gwnaethom dderbyn cynrychiolaethau o blaid trosglwyddo ardal breswyl Llwyn Teg i Gymuned Cocyd gan y Cynghorwyr Veronyca Bates-Hughes, Keith Morgan a James Kelleher, a oedd o'r farn y byddai gwneud hynny yn gwella mynediad preswylwyr at y gorsafoedd pleidleisio. Roedd y Gwir Anrhydeddus Alan Williams AS hefyd yn cefnogi ein newidiadau arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Cocyd a Phenderi. Nodom fod Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn erbyn y cynnig hwn a dywedasant y byddai'n well ganddynt gadw'r ffin bresennol. Hefyd, gwnaethom nodi gwrthwynebiad Plaid Lafur Ward Penderi i'r adliniad arfaethedig i'r ffin ar y sail y byddai hefyd yn newid y ffin rhwng etholaethau seneddol Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe. Hoffem dynnu sylw at y ffaith na fyddai newid y ffin rhwng Cymunedau Penderi a Chocyd yn newid y ffin rhwng etholaethau seneddol Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe fel mater o drefn, er y byddai'n arwain at anghysondeb lle na fyddai ffiniau'r etholaethau seneddol yn gydffiniol â'r ffiniau llywodraeth leol mwyach. Byddai angen mynd i'r afael ag unrhyw anghysondeb tebyg trwy arolwg gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru, a fyddai'n cael gwybod gan y Comisiwn hwn am unrhyw newidiadau i'r ffiniau llywodraeth leol a fyddai'n gwneud arolwg tebyg yn angenrheidiol.

8.5 Rydym o'r farn bod angen mynd i'r afael â'r anghysondeb yn y ffin bresennol rhwng cymunedau Cocyd a Phenderi yn Llwyn Teg a Pharciau Manwerthu Heol Pontarddulais a Fforest-fach ac yn nodi'r pwynt a wnaed gan y Cynghorwyr Bates-Hughes, Morgan a Kelleher y byddai gwneud hynny yn gwella mynediad preswylwyr at y gorsafoedd pleidleisio. Byddai adlinio'r ffin i drosglwyddo'r eiddo gerllaw Llwyn Teg yn Heol Iscoed a Heol Islwyn i Gymuned Penderi yn eu gwahanu oddi wrth ardal adeiledig debyg yng Nghocyd, ac ni fyddai'n mynd i'r afael â'r anghysondeb yn y ffin ym Mharciau Manwerthu Heol Pontarddulais a Fforest-fach. Rydym o'r farn o hyd bod y newid a gynigiwyd yn ein Cynigion Drafft er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, yn gymaint â'i fod yn gwella mynediad ac yn darparu ffin wedi'i diffinio'n glir rhwng Cymunedau Cocyd a Phenderi, fel y dangosir ar y map yn Atodiad 7.

8.6 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig adlinio'r ffin rhwng cymunedau Cocyd a Phenderi er mwyn cynnwys yr ardal breswyl gyfan yn Courtlands Way ac ardaloedd cyfagos Beaufort Court, Richmond Way, Cranmer Court a Chantry Court yng Nghymuned Cocyd. Nodom fod y Gwir Anrhydeddus Alan Williams AS yn cefnogi ein newidiadau arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Cocyd a Phenderi. Gwnaethom dderbyn cynrychiolaethau gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe, Cangen Plaid Lafur Ward Penderi a'r Cynghorwyr Veronyca Bates-Hughes, Keith Morgan a James Kelleher a oedd yn erbyn ein cynnig. Nodom y gwrthgynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a'r Cynghorwyr Bates-Hughes, Morgan a Kelleher y dylid trosglwyddo'r eiddo sy'n cael ei effeithio gan yr anghysondeb i'r ffin i Gymuned Penderi. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y byddai unrhyw adliniad tebyg i'r ffin yn mynd i'r afael â'r anghysondeb mai trwy Gymuned Cocyd yn unig y ceir mynediad at yr eiddo hwnnw ar Courtlands Way a'r eiddo cyfagos yng Nghymuned Penderi.

8.7 Gwnaethom nodi'r pwynt a godwyd gan y Cynghorydd Kelleher y bydd ein cynigion yn cynyddu cymhareb y cynghorwyr i etholwyr ar gyfer adran etholiadol Cocyd ar Gyngor y Sir ac, o ganlyniad, yn ei gwneud yn anoddach i gynghorwyr ddarparu gwasanaeth i'r etholaeth. Fodd bynnag, rydym yn ystyried unrhyw newidiadau ôl-ddilynol sydd eu hangen i drefniadau etholiadol Cyngor y Sir o ganlyniad i unrhyw newidiadau a wnawn i'r ffiniau cymunedol. Dylid nodi hefyd y caiff y trefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Dinas a Sir Abertawe eu harolygu fel rhan o'n harolwg o drefniadau etholiadol awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Unwaith eto, gwnaethom nodi gwrthwynebiad Cangen Ward Penderi y Blaid Lafur i'r adliniad arfaethedig ar y sail y byddai hefyd yn newid y ffin rhwng etholaethau seneddol Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe, ac rydym yn ailadrodd ein hateb i'r pwynt hwn ym mharagraff 8.4 uchod. Rydym o'r farn o hyd bod y newid a gynigir yn ein Cynigion Drafft er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, yn gymaint â'i fod yn gwella mynediad ac yn darparu ffin sydd wedi'i diffinio'n glir, ac felly rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Cocyd a Phenderi fel y dangosir ar y map yn Atodiad 8.

8.8 Cyflwynodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe a'r Cynghorwyr Veronyca Bates-Hughes, Keith Morgan a James Kelleher awgrym y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Cocyd a Phenderi er mwyn trosglwyddo'r eiddo ar Heol Calfin, Ffordd y Brain a Rhodfa'r Brain o Gymuned Cocyd i Gymuned Penderi. Mae'r eiddo hwn wedi'i leoli gerllaw Courtlands Way ac ymddengys i ni fod yr awgrym hwn yn cysylltu'n agos â'r awgrym y dylid trosglwyddo ardal breswyl gyfan Courtlands Way i Gymuned Penderi yn hytrach na Chymuned Cocyd. Pe byddai hyn wedi digwydd, yna byddai'r awgrym a gyflwynwyd i drosglwyddo Heol Calfin, Ffordd y Brain a Rhodfa'r Brain i Benderi wedi bod yn adliniad ychwanegol rhesymegol i'r ffin. Fodd bynnag, rydym wedi cynnig ym mharagraff 8.6 uchod y dylid trosglwyddo ardal Courtlands Way i Gymuned Cocyd ac felly mae angen i ni ystyried yr awgrym y dylid trosglwyddo eiddo ar Heol Calfin, Ffordd y Brain a Rhodfa'r Brain o Gymuned Cocyd i Gymuned Penderi ar ei deilyngdod ei hun. Nid oeddem yn gallu gweld llawer o dystiolaeth y byddai adliniad tebyg i'r ffin er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac roeddem o'r farn bod y ffin bresennol yn ymddangos yn rhesymegol ac wedi'i diffinio'n glir. Felly, nid ydym yn gwneud unrhyw gynnig i adlinio'r ffin

rhwng Cymunedau Cocyd a Phenderi yn ardal Heol Calfin, Ffordd y Brain a Rhodfa'r Brain.

Glandŵr a Threforys

8.9 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Glandŵr a Threforys i gynnwys Ystad Ddiwydiannol Plasmarl i gyd a'r ardal gyfagos yng Nghymuned Treforys. Gwnaethom dderbyn cynrychiolaethau gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a'r Cynghorydd Rob Speht, a oedd yn cytuno â'n cynnig i drosglwyddo Ystad Ddiwydiannol Plasmarl i gyd i Gymuned Treforys, ond yn erbyn cynnwys yr ardal gyfagos wrth adlinio'r ffin. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith bod yr ardal hon yn cynnwys cyfleusterau hamdden a oedd â chysylltiadau hanesyddol cryf â Chymuned Glandŵr ac awgrymu diwygio'r adliniad i'r ffin i ddilyn Beaufort Road. Rydym yn derbyn y rhesymau a gyflwynwyd gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a'r Cynghorydd Speht pam na ddylid trosglwyddo'r cyfleusterau hamdden gerllaw Ystad Ddiwydiannol Plasmarl i Gymuned Treforys, ac yn cytuno y dylid diwygio'r adliniad arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Glandŵr a Threforys i ddilyn Beaufort Road. Nodom y sylw gan y Cynghorydd Mike Hedges fod mynediad at Birmingham Mount yn Nhreforys trwy Gymuned Glandŵr yn unig. Felly, gwnaethom ofyn am farn preswylwyr Birmingham Mount trwy ysgrifennu atynt, ynghyd â barn y Cynghorwyr sy'n cynrychioli'r ardal. Mae 8 o etholwyr yn byw yn Birmingham Mount. Cawsom ymateb gan y Cynghorydd Rob Speht, a oedd o blaid y newid arfaethedig. Cawsom ymateb hefyd gan un o breswylwyr Birmingham Mount, a dynnodd sylw at y ffaith bod mynediad i gerddwyr rhwng Birmingham Mount a Threforys ac nad oedd yn gallu gweld unrhyw reswm dros newid y ffin pan fo Birmingham Mount wedi bod yn rhan o Dreforys ers blynyddoedd lawer. Er ein bod yn cydnabod bod y ffin bresennol yn ymddangos yn afreolaidd o ran mynediad i gerbydau, rydym hefyd yn nodi'r pwynt a godwyd bod mynediad i gerddwyr at Dreforys yn bodoli ac, ar sail yr ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad ac ym mhob un o'r amgylchiadau, nid ydym yn fodlon y byddai'r newid arfaethedig er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, nid ydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Treforys a Glandŵr yn Birmingham Mount. Felly, rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Glandŵr a Threforys fel y dangosir ar y map yn Atodiad 9.

Bonymaen a Llansamlet

8.10 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Bonymaen a Llansamlet i gynnwys Ystadau Diwydiannol Llansamlet a Winch Wen i gyd yng Nghymuned Llansamlet. Nodom fod Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn cefnogi'r adliniad hwn i'r ffin rhwng Cymunedau Bonymaen a Llansamlet. O ystyried y gefnogaeth hon i'n Cynigion Drafft ar gyfer yr ardal hon, rydym o'r farn bod y newid a gynigir er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Bonymaen a Llansamlet fel y dangosir ar y map yn Atodiad 10.

Penllergaer a Llwchwr

8.11 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Penllergaer a Llwchwr i ddilyn ffordd yr A484, gan drosglwyddo Ysbyty Garngoch a'r ardal gyfagos o Gymuned Llwchwr i Gymuned Penllergaer. Nodom fod Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn cefnogi'r cynnig. Gwnaethom dderbyn cynrychiolaethau gan Gyngor Tref Llwchwr, Edwina Hart AC a'r Cynghorydd W Evans yn gwrthwynebu ein cynnig. Er ein bod wedi derbyn tystiolaeth anghyson ynghylch cysylltiad hanesyddol Garngoch â Chymuned Penllergaer, nid ydym o'r farn y byddai'r ffactor hwn ynddo'i hun yn sail ddigonol i bennu ffin gymunedol, a gwnaethom seilio ein cynnig yn bennaf ar y ffaith bod ffordd yr A484 yn fwy diffiniedig na'r ffin bresennol. Cydnabyddwn bwynt y Cynghorydd Evans y gallai adliniad tebyg i ddilyn yr A484 arwain at geisiadau tebyg gan gymunedau cyfagos, a fyddai'n cael effaith niweidiol ar Gymuned Llwchwr. Fodd bynnag, nid ydym wedi derbyn unrhyw geisiadau tebyg fel rhan o'r arolwg cymunedol hwn ac nid ydym o'r farn y dylai gael unrhyw ddylanwad ar ein penderfyniad yn ymwneud yn benodol â'r ffin rhwng Cymunedau Penllergaer a Llwchwr yn yr ardal hon. Cydnabyddwn y pwyntiau a wnaed gan Edwina Hart AC a Chyngor Tref Llwchwr nad oes unrhyw dystiolaeth o anfodlonrwydd â'r ffin bresennol a bod perthynas waith agos rhwng Ysbyty Garngoch a Chymuned Llwchwr. Ar ôl ystyried yn ofalus, rydym yn cytuno y dylid cadw'r ffin bresennol mewn perthynas ag Ysbyty Garngoch ac y dylai'r ysbyty aros yng Nghymuned Llwchwr. Rydym hefyd o'r farn y byddai'r A484 yn ffin fwy boddhaol ar gyfer yr ardal i'r dwyrain o'r ysbyty. Felly, rydym yn cynnig y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Penllergaer a Llwchwr fel y dangosir ar y map yn Atodiad 11.

Birchgrove a Chlydach

8.12 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Birchgrove a Chlydach i gynnwys pentref cyfan Glais yng Nghymuned Birchgrove, gan ein bod o'r farn bod y ffin bresennol, sy'n gwahanu pentref Glais, yn anghysondeb y mae angen mynd i'r afael ag ef. Gwnaethom dderbyn cefnogaeth i'n cynnig gan 3 phreswylydd a dau gynghorydd lleol, ynghyd â llythyrau safonol a lofnodwyd gan 78 o breswylwyr o bentref Glais, yn mynegi yr hoffent i bentref cyfan Glais gael ei gynnwys yn adran etholiadol Llansamlet (sy'n cynnwys Cymuned Birchgrove) ac etholaeth seneddol Dwyrain Abertawe. Roedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Cymuned Clydach yn erbyn ein cynnig ac yn datgan y dylid trosglwyddo Glais i Gymuned Clydach. Sylwn fod cefnogaeth sylweddol i'n Cynigion Drafft ymhlith preswylwyr Glais a'r pwyntiau a wnaed ynghylch cysylltiadau hanesyddol rhwng Glais a Llansamlet / Birchgrove, gyda phreswylwyr Glais yn defnyddio'r eglwys a'r ysgol yno. Fodd bynnag, cydnabyddwn hefyd y pwyntiau a wnaed gan Gyngor Cymuned Clydach bod cysylltiadau hanesyddol rhwng pentref Glais a Chlydach hefyd, bod preswylwyr Glais yn defnyddio'r cyfleusterau yng Nghlydach, fel y Neuadd Gymunedol, y Ganolfan Iechyd, Canolfan Adnoddau Forge Fach a'r Llyfrgell, a bod y Cyngor Cymuned wedi cyfrannu'n sylweddol at Ymddiriedolaeth Datblygu Glais. Hefyd, mae Glais a Chlydach wedi'u lleoli yn gyfagos at ei gilydd yng Nghwm Tawe ac mae pentref Glais yn agosach at Glydach yn ddaearyddol nag unrhyw ardal adeiledig debyg yng Nghymuned Birchgrove. Rydym o'r farn o hyd bod y ffin

bresennol yn anghysondeb y mae angen ei unioni. Ar ôl ystyried yn ofalus, rydym o'r farn bod achos cryfach o blaid cynnwys pentref cyfan Glais yng Nghymuned Clydach. Felly, rydym yn cynnig adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Clydach a Birchgrove fel y dangosir ar y map yn Atodiad 12.

Dyfnant a Chilâ Uchaf

8.13 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Dyfnant a Chilâ Uchaf er mwyn trosglwyddo tri eiddo yn Ddol Lane yng Nghymuned Cilâ Uchaf i Gymuned Dyfnant. Roedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn cefnogi ein cynnig. O ystyried y gefnogaeth hon i'n Cynigion Drafft ar gyfer yr ardal hon, rydym o'r farn bod y newid a gynigir er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Dyfnant a Chilâ Uchaf fel y dangosir ar y map yn Atodiad 13.

Clydach a Threforys

8.14 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Clydach a Threforys i drosglwyddo ardal Caermawr o Gymuned Treforys i Gymuned Clydach. Roedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe o blaid ein cynnig. Roedd Cyngor Cymuned Clydach o blaid ein cynnig ac yn dadlau y dylid trosglwyddo ardal Pen-y-Rhedyn a Glofa Hills yng Nghymuned Treforys i Gymuned Clydach hefyd. Sylwom yn flaenorol yr ymddengys fod ardal Pen-y-Rhedyn o natur wledig debyg i ardaloedd cyfagos eraill yng Nghymuned Treforys a bod mynediad da ati trwy'r Gymuned honno, felly ni wnaethom ei chynnwys yn yr ardal i'w throsglwyddo i Glydach gyda Chaermawr. Dywed Cyngor Cymuned Clydach fod preswylwyr Pen-y-rhedyn yn defnyddio cyfleusterau yng Nghymuned Clydach ac yn cael budd ohonynt, fodd bynnag, mae ardal Pen-y-Rhedyn yn eithaf tenau ei phoblogaeth, a gellid defnyddio'r un ddadl ar gyfer yr anheddiad cyfagos yn Ynystawe, a fydd yn aros yn rhan o Dreforys. Cydnabyddwn sylw'r Cynghorydd Mike Hedges, y bydd mynediad at Ben-y-Rhedyn trwy Glydach neu Langyfelach yn unig, ond hoffem dynnu sylw at y ffaith nad yw hyn yn hollol gywir, gan y cynigir i'r prif fynediad at Ben-y-Rhedyn, sef Mynydd Gelliwastad Road, ffurfio'r ffin rhwng Cymunedau Treforys a Llangyfelach, ac ni fydd yn disgyn yn gyfan gwbl i'r naill Gymuned neu'r llall. Felly, rydym yn cynnig adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Clydach a Threforys fel y dangosir ar y map yn Atodiad 14.

Llangyfelach a Threforys

8.15 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Llangyfelach a Threforys er mwyn trosglwyddo'r ardal i'r gorllewin o Pant Lasau Road a Mynydd Gelliwastad Road o Gymuned Treforys i Gymuned Llangyfelach. Roedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe o blaid y cynnig hwn a gwnaethant awgrymu hefyd efallai y byddai'r Comisiwn yn dymuno ystyried trosglwyddo'r ardal i'r gorllewin o Pant Lasau Road a Mynydd Gelliwastad Road i Gymuned Mawr. Cafwyd awgrym tebyg gan Gyngor Cymuned Mawr y dylid trosglwyddo'r ardal ger Pant Lasau Road a Rhyd-y-Pandy Road i Gymuned Mawr. Nodwn fod yn ardal o natur debyg i'r ddwy Gymuned yn Llangyfelach a Mawr, sy'n denau eu poblogaeth. Fodd bynnag, o ystyried ei lleoliad, rydym o'r farn y byddai'n

fwy cyfleus yn ffin Cymuned Llangyfelach. Felly, rydym yn cynnig adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Llangyfelach a Threforys fel y dangosir ar y map yn Atodiad 15.

Townhill a Chastell

8.16 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Townhill a Chastell i drosglwyddo'r eiddo yn Nicander Place o Gymuned Castell i Gymuned Townhill. Roedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe o blaid y cynnig hwn. O ystyried y gefnogaeth i'n Cynigion Drafft ar gyfer yr ardal hon, rydym o'r farn bod y newid arfaethedig er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Townhill a Chastell fel y dangosir ar y map yn Atodiad 16.

Cwmbwrla a Phenderi

8.17 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Cwmbwrla a Phenderi er mwyn trosglwyddo eiddo ar Brenig Road o Gymuned Cwmbwrla i Gymuned Penderi. Roedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Changen Ward Penderi y Blaid Lafur o blaid y cynnig hwn. O ystyried y gefnogaeth i'n Cynigion Drafft ar gyfer yr ardal hon, rydym o'r farn bod y newid arfaethedig er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Cwmbwrla a Phenderi fel y dangosir ar y map yn Atodiad 17.

Gorseinon a Phengelli-ddrain a Waungron

8.18 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Phengelli-ddrain a Waungron er mwyn trosglwyddo tri eiddo ym Mryn Car, Rose Cottage a Gors-fawr o Gymuned Gorseinon i Gymuned Pengelli-ddrain a Waungron. Roedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Tref Gorseinon o blaid y cynnig hwn. O ystyried y gefnogaeth i'n Cynigion Drafft ar gyfer yr ardal hon, rydym o'r farn bod y newid arfaethedig er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Phengelli-ddrain a Waungron fel y dangosir ar y map yn Atodiad 18.

Gorseinon a Llwchwr

8.19 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr er mwyn trosglwyddo'r ardal breswyl ger Clos y Nant, Heol Pant y Dŵr a Heol Pen y Cae o Gymuned Llwchwr i Gymuned Gorseinon. Roedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Tref Gorseinon o blaid y cynnig hwn. Gwnaethom gydnabod y gwrthwynebiadau i'n cynnig gan Gyngor Tref Llwchwr ac Edwina Hart AC, ar y sail nad oedd unrhyw dystiolaeth o anfodlonrwydd â'r ffin bresennol ac y gallai'r gostyngiad canlyniadol i'r praesept ar gyfer Cyngor Tref Llwchwr gael effaith niweidiol ar ei wasanaethau. Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylid unioni'r anghysondeb yn y ffin bresennol, sy'n gwahanu'r ardal breswyl ger Clos y Nant, Heol Pant y Dŵr a Heol Pen y Cae, a chydnabyddwn bwynt Cyngor Dinas a Sir Abertawe fod yr eiddo dan sylw eisoes wedi'i gynnwys yn anghywir ar gofrestr etholiadol Gorseinon dan ranbarth etholiadol Penyrheol.

Gwnaethom gydnabod ffin amgen Cyngor Tref Llwchwr, sy'n dilyn Heol Pentre Bach tua'r dwyrain, ac yna Frampton Road nes iddi ailymuno â'r ffin bresennol. Fodd bynnag, nid oeddem o'r farn bod y ffin amgen a awgrymwyd gan Gyngor Tref Llwchwr yr un mor effeithiol â'r cynnig ni, gan ei fod yn gwahanu'r ardal breswyl yr ydym o'r farn sy'n perthyn gyda'i gilydd yn yr un gymuned o hyd. Cydnabyddwn bwynt Cyngor Tref Llwchwr fod mynediad at Fferm Gwynfaen, yng Nghymuned Gorseinon, trwy Gymuned Llwchwr yn unig, gan bennu'r egwyddor o gael mynediad at eiddo mewn un gymuned trwy gymuned arall. Fodd bynnag, er ein bod yn cytuno bod hyn yn gyfystyr ag anghysondeb yn y ffin bresennol hefyd, nid yw'n un yr ydym wedi derbyn cynrychiolaethau yn ei gylch yn flaenorol ac nid ydym o'r farn ei fod yn tynnu oddi wrth ein cynnig i fynd i'r afael â'r anghysondeb yn y ffin yng Nghlos y Nant, Heol Pant y Dŵr a Heol Pen y Cae. Felly, rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr fel y dangosir ar y map yn Atodiad 19.

8.20 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr er mwyn trosglwyddo ardal hen waith dur Bryngwyn i'r dwyrain o Afon Lliw o Gymuned Gorseinon i Gymuned Llwchwr. Roedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Tref Gorseinon o blaid ein cynnig a dywedodd Cyngor Tref Llwchwr nad oeddent yn ei wrthwynebu. O ystyried y gefnogaeth i'n Cynigion Drafft ar gyfer yr ardal hon, rydym o'r farn bod y newid arfaethedig er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Llwchwr a Gorseinon fel y dangosir ar y map yn Atodiad 20.

8.21 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom ystyried adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr er mwyn trosglwyddo'r eiddo ar hyd West Street o Gymuned Llwchwr i Gymuned Gorseinon, ond ni wnaethom unrhyw gynnig ar gyfer y newid hwn gan nad oeddem yn fodlon bod y ffin bresennol yn cyflwyno anghysondeb arwyddocaol o ran llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Ni chawsom unrhyw gynrychiolaethau yn ymwneud â'r awgrym mewn ymateb i'n hadroddiad ar y Cynigion Drafft, ac felly rydym o'r farn o hyd y dylid cadw'r ffin bresennol.

Gorseinon a Phenllergaer

8.22 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom gynnig y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Phenllergaer er mwyn trosglwyddo adeilad sy'n perthyn i eiddo ar ben draw Windsor Terrace o Gymuned Penllergaer i Gymuned Gorseinon. Roedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Tref Gorseinon o blaid ein cynnig. O ystyried y gefnogaeth hon i'n Cynigion Drafft ar gyfer yr ardal hon, rydym o'r farn bod y newid arfaethedig er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Phenllergaer fel y dangosir ar y map yn Atodiad 21.

Llanrhidian Uchaf

8.23 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom ystyried yr awgrym y dylid tynnu Ward Y Crwys o Gymuned Llanrhidian Uchaf i ffurfio Cymuned newydd ar wahân, gan nad oedd ganddi lawer yn gyffredin â'r ddwy Ward arall, sef Penclawdd

a Llanmorlais. Hefyd, gwnaethom ystyried y dewis arall y dylid trosglwyddo Ward Y Crwys i Gymuned Cilâ Uchaf neu Gymuned Llanilltud Gŵyr. Gwnaethom dderbyn cynrychiolaeth gan y Cynghorydd Paxton Hood-Williams, ynghyd â deiseb gyda 402 o lofnodion o blaid tynnu Ward Y Crwys o Gyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf a chreu Cyngor Cymuned ar wahân ar gyfer Y Crwys. Ni wnaeth Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf unrhyw sylwadau ar y newid awgrymedig mewn perthynas â Ward Y Crwys. Ni chawsom unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r awgrym y gellir cyfuno Ward Y Crwys â Chymuned Cilâ Uchaf neu Gymuned Llanilltud Gŵyr. Cydnabyddwn y pwynt a wnaed yn y cynrychiolaethau a dderbyniwyd, nad oes gan Ward Y Crwys, sy'n ward fewndirol, lawer yn gyffredin â wardiau arfordirol Penclawdd a Llanmorlais. Ymddengys i ni fod cefnogaeth sylweddol ymhlith preswylwyr Ward Y Crwys i ffurfio Cymuned ar wahân ar gyfer Y Crwys ac y byddai cymuned debyg yn ymarferol o ran yr etholaeth, ac yn gadael gweddill Cymuned Llanrhidian Uchaf yn ymarferol hefyd. Felly, rydym yn cynnig diddymu Cymuned bresennol Llanrhidian Uchaf a chreu Cymuned newydd ar gyfer Llanrhidian Uchaf, yn cynnwys Wardiau Penclawdd a Llanmorlais y Gymuned bresennol, a Chymuned newydd Y Crwys, yn cynnwys Ward Y Crwys y Gymuned bresennol. Rydym hefyd yn cynnig y dylai Cymunedau newydd Llanrhidian Uchaf gael eu rhannu'n wardiau o'r enw Penclawdd a Llanmorlais, gyda'r ffiniau'n cyd-ffinio â wardiau presennol Penclawdd a Llanmorlais. Dangosir ein cynnig ar y map yn Atodiad 22.

8.24 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom ystyried yr awgrym y dylid adlinio'r ffin rhwng Wardiau Penclawdd a Llanmorlais yng Nghymuned Llanrhidian Uchaf, er mwyn trosglwyddo rhan uchaf Station Road o Ward Penclawdd i Ward Llanmorlais. Roeddem o'r farn bod rhinwedd i'r awgrym hwn, ond nid oeddem yn gallu cynnig y newid hwn gan nad oeddem yn cynnig unrhyw newid i ffin gymunedol Llanrhidian Uchaf a fyddai'n cyfiawnhau newid ôl-ddilynol tebyg i drefniadau etholiadol y Gymuned honno. Fodd bynnag, o ystyried y newidiadau i Gymuned Llanrhidian Uchaf sy'n cael eu cynnig ym mharagraff 8.23 uchod, rydym hefyd yn cynnig newid ôl-ddilynol i'r ffin rhwng Wardiau Penclawdd a Llanmorlais i drosglwyddo rhan uchaf Station Road o Ward Penclawdd i Ward Llanmorlais, fel y dangosir ar y map yn Atodiad 23.

Penllergaer a Llangyfelach

8.25 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom ystyried yr awgrym y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Penllergaer a Llangyfelach er mwyn trosglwyddo Coed Cwm Penllergaer i gyd ac ardal hen Ystad Penllergaer o Gymuned Llangyfelach i Gymuned Penllergaer. Ymddengys i ni y gwnaed yr awgrym hwn am resymau hanesyddol yn bennaf yn hytrach nag er mwyn gwella llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, ac felly ni wnaethom unrhyw gynigion i newid y ffin rhwng Cymunedau Penllergaer a Llangyfelach. Gwnaethom dderbyn cynrychiolaeth gan y Cynghorydd Wendy Fitzgerald, a fynegodd siom nad oeddem wedi cynnig adlinio'r ffin i drosglwyddo Coed Cwm Penllergaer i gyd ac ardal hen Ystad Penllergaer o Gymuned Llangyfelach i Gymuned Penllergaer. Roedd yn derbyn nad oedd y newid awgrymedig yn cael unrhyw effaith ar lywodraeth leol effeithiol a chyfleus, ond roedd o'r farn bod cysylltiadau hanesyddol yr ardal â Chymuned Penllergaer yn bwysig, gan fod llawer o breswylwyr Penllergaer yn cysylltu'r ardal â'u Cymuned o hyd. Er ein bod yn cydnabod y byddai'n well i ardaloedd gael eu cynnwys mewn

cymunedau y mae ganddynt gysylltiadau hanesyddol â nhw, nid yw hyn yn bosibl bob tro oherwydd newidiadau i'r boblogaeth, datblygiadau newydd a newidiadau i drefniadau llywodraeth leol. Dywed Adran 54 (1) y Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd) y dylid gwneud cynigion i 'weithredu newidiadau yr ymddengys yn ddymunol i'r Comisiwn er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus', ac felly hwn yw ein prif faen prawf wrth wneud unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â ffiniau llywodraeth leol. Felly, rydym o'r farn o hyd na ddylid newid y ffin bresennol rhwng Cymunedau Penllergaer a Llangyfelach yn yr ardal hon.

Dyfnant a Chilâ Uchaf

8.26 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom ystyried yr awgrym y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Cilâ Uchaf a Dyfnant er mwyn trosglwyddo Clwb Rygbi Dyfnant o Gymuned Cilâ Uchaf i Gymuned Dyfnant. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu dynodi adliniad priodol i'r ffin. Ni chawsom unrhyw gynrychiolaethau pellach ynghylch yr ardal hon mewn ymateb i'n hadroddiad ar y Cynigion Drafft, ac felly rydym o'r farn o hyd y dylid cadw'r ffin bresennol rhwng Cymunedau Dyfnant a Chilâ Uchaf yn ardal Clwb Rygbi Dyfnant.

Townhill

8.27 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom ystyried yr awgrym y dylid diddymu Cymuned Townhill a chreu dwy gymuned newydd o'r enw Townhill a Mayhill yn ei lle. Ni wnaethom unrhyw gynigion i newid Cymuned Townhill ond fe wnaethom wahodd cynrychiolaethau pellach. Gwnaethom sylwi bod cefnogaeth sylweddol ymhlith preswylwyr lleol i rannu'r Gymuned bresennol, fel y dangoswyd gan sawl cynrychiolaeth a dderbyniwyd, gan gynnwys deiseb gyda 198 o lofnodion. Cydnabyddwn y pwyntiau a wnaed yn y cynrychiolaethau hyn, sef bod gan ardal Mayhill ei hunaniaeth arbennig a'i chyfleusterau ei hun, a bod problemau'r preswylwyr yn mynnu sylw cynghorydd penodedig. Fodd bynnag, gwnaethom gydnabod y pwyntiau a wnaed gan Blaid Lafur Ward Townhill, Andrew Davies AC a'r Cynghorwyr Nick Bradley a Billy Jones hefyd, bod Cymuned Townhill yn gymuned gydlynol gydag anghenion tai, cymdeithasol ac economaidd tebyg a chyfleusterau ac isadeiledd yn addas ar gyfer un gymuned.

8.28 Ymddengys i ni fod Cymuned bresennol Townhill yn un gydlynol ac, er bod ardal Mayhill yn wahaniaethol, mae o natur debyg iawn i weddill y gymuned o hyd, o ran tai a gofynion cymdeithasol. Cydnabyddwn hefyd fod ardal Mayhill yn cynnwys tua hanner Cymuned Townhill, ac felly nid ydym yn sicr nad yw'r Cynghorwyr Sir sy'n cwmpasu'r gymuned gyfan yn mynd i'r afael â phroblemau preswylwyr Mayhill yn ddigonol. Er ein bod yn cydnabod y pwyntiau a wnaed bod Mayhill yn ardal arbennig gyda'i phroblemau ei hun, rydym hefyd yn cydnabod y pwyntiau a wnaed bod y gymuned gyfan o natur debyg a bod y trefniadau presennol yn gweithio'n dda. Nid ydym o'r farn y cyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i ni sy'n awgrymu bod y trefniadau presennol ar gyfer Cymuned Townhill mor anfoddhaol fel eu bod yn cyfiawnhau'r newid awgrymedig. Ar ôl ystyried yn ofalus, rydym o'r farn bod y trefniadau presennol ar gyfer Cymuned Townhill yn foddhaol o ran llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, ac felly nid ydym yn gwneud unrhyw gynnig i newid y trefniadau hyn.

Glandŵr a Chastell

8.29 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach, gwnaethom gynnig y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Glandŵr a Chastell er mwyn trosglwyddo sawl eiddo ar Llangyfelach Road, Hafod Park, Pentremawr Road ac Odo Street yng Nghymuned Castell i Gymuned Glandŵr. Nodom fod Cyngor Dinas a Sir Abertawe o blaid y cynnig hwn. O ystyried y gefnogaeth i'n Cynigion Drafft Pellach ar gyfer yr ardal hon, rydym o'r farn bod y newid arfaethedig er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymuned Glandŵr a Chymuned Castell fel y dangosir ar y map yn Atodiad 24.

Llandeilo Ferwallt a'r Mwmbwls

8.30 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach, gwnaethom ystyried yr awgrym y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymuned y Mwmbwls a Chymuned Llandeilo Ferwallt i gynnwys Bae Caswell cyfan yng Nghymuned Llandeilo Ferwallt. Nid oeddem yn sicr y byddai adlinio'r ffin hon yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac felly ni wnaethom gynnig unrhyw newid i'r ffin rhwng Cymunedau Llandeilo Ferwallt. Ni chawsom unrhyw gynrychiolaethau pellach mewn perthynas â'r ardal hon mewn ymateb i'n hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach ac felly rydym o'r farn o hyd na ddylid newid y ffin bresennol.

Llandeilo Ferwallt a Phennard

8.31 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Llandeilo Ferwallt a Phennard er mwyn trosglwyddo'r eiddo a'r adeiladau cyfagos ar Gomin Barlands o Gymuned Pennard i Gymuned Llandeilo Ferwallt. Gwnaethom dderbyn cynrychiolaeth o blaid y cynnig hwn gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Cawsom gynrychiolaeth hefyd gan Gyngor Cymuned Pennard a dynnodd sylw at y ffaith bod ein hadliniad arfaethedig i'r ffin bresennol yn rhannu tir yn perthyn i Fferm Kittle Hill, ac yn awgrymu diwygio ein cynnig er mwyn mynd i'r afael â hyn. Rydym o'r farn y dylid mabwysiadu'r diwygiad a awgrymwyd gan Gyngor Cymuned Pennard er mwyn cadw'r holl dir sy'n perthyn i Fferm Kittle Hill yn yr un gymuned. O ystyried y gefnogaeth i'n Cynigion Drafft Pellach ar gyfer yr ardal hon, rydym o'r farn bod y newid arfaethedig, fel y'i diwygiwyd gan Gyngor Cymuned Pennard, er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymuned Llandeilo Ferwallt a Chymuned Pennard fel y dangosir ar y map yn Atodiad 25.

8.32 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach, gwnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Llandeilo Ferwallt a Phennard er mwyn trosglwyddo Ship Cottage a Beaufort House o Gymuned Pennard i Gymuned Llandeilo Ferwallt. Gwnaethom dderbyn cynrychiolaeth o blaid y cynnig hwn gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe. O ystyried y gefnogaeth i'n Cynigion Drafft Pellach ar gyfer yr ardal hon, rydym o'r farn bod y newid arfaethedig er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Cymuned Llandeilo Ferwallt a Chymuned Pennard fel y dangosir ar y map yn Atodiad 26.

Mawr a Llangyfelach

8.33 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach, gwnaethom ystyried yr awgrym y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Mawr a Llangyfelach ar hyd yr M4 / Llangyfelach Road. Nid ymddengys i ni fod y newid awgrymedig i'r ffin er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac felly ni wnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Mawr a Llangyfelach yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach. Gwnaethom dderbyn cynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Llangyfelach a oedd yn erbyn unrhyw newid i'r ffin rhwng Cymunedau Mawr a Llangyfelach ar hyd yr M4 / Llangyfelach Road. O ystyried y diffyg cefnogaeth i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Mawr a Llangyfelach ar hyd yr M4 / Llangyfelach Road, rydym o'r farn o hyd na fyddai er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, ac felly nid ydym yn cynnig unrhyw newid tebyg i'r ffin.

Mawr a Phontarddulais

8.34 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach, gwnaethom ystyried yr awgrym y dylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Mawr a Phontarddulais er mwyn trosglwyddo ardal Cwm Dulais o Gymuned Pontarddulais i Gymuned Mawr. Nid ymddengys i ni fod y newid awgrymedig i'r ffin er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac felly ni wnaethom gynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Mawr a Phontarddulais yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach. Ni wnaethom dderbyn unrhyw gynrychiolaethau pellach mewn perthynas â'r adliniad awgrymedig hwn i'r ffin ac felly rydym o'r farn o hyd na fyddai er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, felly, nid ydym yn cynnig unrhyw newid tebyg i'r ffin.

Clydach a Mawr

8.35 Yn ein Hadroddiad ar y Cynigion Drafft Pellach, gwnaethom ystyried yr awgrym y dylid adlinio ffin Cymuned Clydach i gynnwys ardaloedd Baran Carnllechart a Gellionnen. Cawsom drafferth dod o hyd i'r ardal dan sylw ac felly ni wnaethom gynnig newid ffin Clydach yn yr Adroddiad ar y Cynigion Drafft, ond fe wnaethom wahodd esboniad pellach o'r ardal dan sylw. Gwnaethom dderbyn cynrychiolaethau gan Gyngor Cymuned Clydach a phreswylydd o Glydach, a oedd o blaid trosglwyddo Baran Carnllechart a Gellionnen i Gymuned Clydach. Esboniodd y gynrychiolaeth gan y preswylydd o Glydach fod yr ardal dan sylw yn rhan o Gymuned Mawr ar hyn o bryd. Tynnodd Cyngor Cymuned Clydach a'r preswylydd o Glydach sylw at y ffaith bod gan yr ardal gysylltiadau hanesyddol ag ardal Clydach a'i bod yn cynnwys llwybrau troed wedi'u rhifo sydd angen eu cynnal a'u cadw. Roeddent o'r farn y byddai Cyngor Cymuned Clydach mewn sefyllfa well i gynnal a chadw'r llwybrau troed hyn na Chyngor Cymuned Mawr, o ystyried ei sylfaen refeniw fwy. Tynnodd y preswylydd y Glydach sylw at y ffaith mai un adliniad posibl i'r ffin bresennol fyddai dilyn llinell Afon Clydach Isaf.

8.36 Ar ôl cadarnhau lleoliad yr ardaloedd dan sylw, roeddem yn gallu rhoi ystyriaeth lawn i'r adliniad awgrymedig i'r ffin. Cydnabyddwn y pwyntiau a wnaed gan Gyngor Cymuned Clydach a'r preswylydd fod gan yr ardal gysylltiad hanesyddol â Chlydach ac y byddai Cyngor Cymuned Clydach mewn sefyllfa ariannol well i gynnal a chadw'r llwybrau troed. Nodwn hefyd fod Edwina Hart AC wedi cefnogi'r

newid arfaethedig yn ystod cam Cynigion Drafft yr arolwg hwn, a thynnodd hithau sylw at allu Cyngor Cymuned Clydach i gynnal a chadw'r llwybrau troed yn well hefyd. Fodd bynnag, rydym wedi cael ar ddeall gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe mai nhw sy'n gyfrifol am gynnal a chadw llwybrau troed yn yr ardal, er y gallai'r Cyngor Cymuned gymryd cyfrifoldeb dros rai agweddau ar gynnal a chadw llwybrau troed. Pe byddai ardal Mawr sy'n cynnwys y llwybrau troed yn cael ei throsglwyddo i Glydach, Cyngor Dinas a Sir Abertawe fyddai'n gyfrifol am eu cynnal a chadw o hyd. Nid ydym o'r farn bod y posibilrwydd y gallai Cyngor Cymuned Clydach ddewis ymgymryd â rhai agweddau ar gynnal a chadw'r llwybrau troed hyn yn rheswm digonol ynddo'i hun i gyfiawnhau trosglwyddo ardal mor sylweddol o Gymuned Mawr i Gymuned Clydach. Er ein bod yn cydnabod cysylltiadau hanesyddol yr ardal â Chlydach, ymddengys i ni fod y cysylltiadau cyfathrebu yn yr ardal yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin yn hytrach nag o'r gogledd i'r de. Mae gan bob un o'r aneddiadau a'r ffermydd gwasgarog yn yr ardal gysylltiadau mynediad â'r gorllewin trwy Ward Craig-cefn-parc Cymuned Mawr. Felly, ymddengys yn rhesymegol fod yr ardal honno yn rhan o Gymuned Mawr i'r gorllewin yn hytrach nag yn rhan o Gymuned Clydach i'r de. Ar ôl ystyried yn ofalus, rydym o'r farn bod materion yn ymwneud â chysylltiadau ffordd a mynediad yn gorbwyso'r ddadl yn ymwneud â chysylltiad hanesyddol a chynnal a chadw llwybrau troed. Felly, nid ydym yn fodlon y byddai newid tebyg i'r ffin rhwng Cymunedau Mawr a Chlydach er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, ac felly nid ydym yn cynnig unrhyw newid i'r ffin yn yr ardal hon.

9. CYNIGION

9.1 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael i ni, rydym yn cynnig y dylid adlinio ffiniau Cymunedau Birchgrove, Llandeilo Ferwallt, Bonymaen, Castell, Clydach, Cocyd, Cwmbwrla, Dyfnant, Gorseinon, Pengelli-ddrain a Waungron, Glandŵr, Llangyfelach, Llanrhidian Uchaf, Llansamlet, Llwchwr, Treforys, Mynyddbach, Penderi, Penllergaer, Pennard, Pontlliw a Thircoed, Townhill a Chilâ Uchaf yn yr ardal dan sylw gan ddilyn y ffiniau a ddangosir mewn gwyrdd ar y mapiau yn Atodiadau 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25 and 26.

9.2 Gellir archwilio mapiau mwy manwl sy'n dangos y ffiniau newydd arfaethedig yn swyddfeydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe ac yn swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd.

10. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL

10.1 Wrth ystyried y newidiadau amrywiol i'r ffiniau cymunedol, roedd hefyd yn ofynnol i ni ystyried yr effeithiau ôl-ddilynol ar y trefniadau etholiadol ar gyfer cynghorau cymuned a'r prif awdurdod, a fyddai'n deillio o'r newidiadau hyn. Mae'r rhan hon o'n hadroddiad yn manylu ar ein cynigion ar gyfer newidiadau ôl-ddilynol i'r trefniadau etholiadol. Darparwyd yr ystadegau etholiadol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

Trefniadau Etholiadol Cynghorau Cymuned

10.2 Nid oes cyngor cymuned gan Gymunedau Birchgrove, Bonymaen, Castell, Cocyd, Cwmbwrla, Dyfnant, Glandŵr, Llansamlet, Treforys, Mynyddbach, Penderi, a Townhill. Felly, nid oes unrhyw newidiadau ôl-ddilynol i'w hystyried o ganlyniad i'n cynigion mewn perthynas â'r Cymunedau hyn.

10.3 Ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadau Cymunedol, mae Cymuned Llandeilo Ferwallt wedi'i rhannu yn wardiau cymunedol Llandeilo Ferwallt a Murton. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Llandeilo Ferwallt	Llandeilo Ferwallt	1,638	7	234
	Murton	1,150	7	164
		2,788	**14**	**199**

*E/C – etholwyr i bob cynghorydd

10.4 Dan ein cynigion, bydd Ward Llandeilo Ferwallt yn cynyddu 1 i 1,639 o etholwyr a bydd Ward Murton yn cynyddu 2 i 1,152 o etholwyr. Rydym o'r farn bod nifer bresennol y cynghorwyr ym mhob Ward yn y Gymuned yn darparu cynrychiolaeth ddigonol ac felly nid ydym yn cynnig newid y trefniadau etholiadol presennol ar gyfer Cymuned Llandeilo Ferwallt. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a'r cynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Llandeilo Ferwallt	Llandeilo Ferwallt	1,639	7	234
	Murton	1,152	7	165
		2,791	**14**	**199**

*E/C – etholwyr i bob cynghorydd

10.5 Ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadau Cymunedol, mae Cymuned Clydach wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Clydach, Glais, Graigfelen a'r Faerdre. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Clydach	Clydach	2,188	6	365
	Glais	284	1	284
	Graigfelen	1,320	4	330
	Y Faerdre	2,131	5	426
		5,923	**16**	**370**

*E/C – etholwyr i bob cynghorydd

10.6 Dan ein cynigion, bydd Ward Glais yn cynyddu 663 i 947 o etholwyr a bydd Ward Graigfelen yn cynyddu 116 i 1,428 o etholwyr. Ymddengys i ni y byddai'r cynnydd sylweddol i etholaeth Glais yn haeddu cynrychiolaeth ychwanegol ar Gyngor Cymuned Clydach ac rydym o'r farn mai lefel briodol y gynrychiolaeth ar gyfer y Ward hon yw 3 chynghorydd. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Clydach	Clydach	2,188	6	371
	Glais	947	3	315
	Graigfelen	1,428	4	360
	Y Faerdre	2,131	5	427
		6,694	**18**	**371**

*E/C – etholwyr i bob cynghorydd

10.7 Ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadau Cymunedol, mae Cymuned Gorseinon wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Canol Gorseinon, Dwyrain Gorseinon, Gorllewin Gorseinon a Phenyrheol. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Gorseinon	Canol Gorseinon	1,204	4	301
	Dwyrain Gorseinon	1,904	4	476
	Gorllewin Gorseinon	1,473	3	491
	Penyrheol	2,110	5	422
		6,691	**16**	**418**

*E/C – etholwyr i bob cynghorydd

10.8 Dan ein cynigion, bydd Ward Gorllewin Gorseinon yn cynyddu 72 o etholwyr i 1,545. Rydym wedi nodi'r gwahaniaeth mewn cynrychiolaeth ar gyfer Ward Canol Gorseinon ac rydym o'r farn mai lefel briodol y gynrychiolaeth ar gyfer y Ward hon yw 3 chynghorydd. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Gorseinon	Canol Gorseinon	1,204	3	401
	Dwyrain Gorseinon	1,904	4	476
	Gorllewin Gorseinon	1,545	3	515
	Penyrheol	2,110	5	422
		6,763	**15**	**451**

*E/C – etholwyr i bob cynghorydd

10.9 Nid yw Cymuned Pengelli-ddrain a Waungron wedi'i rhannu'n wardiau at ddibenion etholiadau cymunedol. Nid yw ein cynigion ar gyfer y Gymuned yn cynnwys trosglwyddo unrhyw etholwyr ac felly bydd y trefniadau etholiadol cymunedol presennol yn parhau heb eu newid.

10.10 Nid yw Cymuned Llangyfelach wedi'i rhannu'n wardiau at ddibenion etholiadau cymunedol ac mae ganddi 1,822 o etholwyr a gynrychiolir gan 8 o gynghorwyr, gyda chymhareb o 202 o etholwyr i bob cynghorydd. Dan ein cynigion, bydd yr etholaeth yn lleihau 18 i 1,804 gyda chymhareb o 200 o etholwyr i bob cynghorydd. Nid ydym o'r farn bod y lleihad hwn yn nifer yr etholwyr yn ddigon sylweddol i ofyn am leihad yn nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli'r Gymuned, ac felly bydd y trefniadau etholiadol cymunedol presennol yn parhau heb eu newid.

10.11 Ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadau Cymunedol, mae Cymuned Llanrhidian Uchaf wedi'i rhannu'n Wardiau Cymunedol Y Crwys, Penclawdd a Llanmorlais. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	**Ward**	**Etholwyr**	**Cynghorwyr**	**E/C***
Llanrhidian Uchaf	Y Crwys	1,229	4	307
	Penclawdd	1,982	7	283
	Llanmorlais	1,064	3	355
		4,275	**14**	**305**

*E/C – etholwyr i bob cynghorydd

10.12 Dan ein cynigion, caiff Cymuned bresennol Llanrhidian Uchaf ei diddymu a chaiff dwy gymuned newydd eu creu, o'r enw Llanrhidian Uchaf a Y Crwys. Bydd Cymuned newydd Llanrhidian Uchaf yn cynnwys Wardiau Cymunedol presennol Penclawdd a Llanmorlais, gan adlinio'r ffin gymunedol i drosglwyddo rhan o Station Road o Lanmorlais i Benclawdd, fel yr amlinellir ym mharagraff 8.23 uchod ac ar y map yn Atodiad 23. Fodd bynnag, cydnabyddwn y byddai'r trefniadau presennol yn gadael Penclawdd gydag ychydig yn ormod o gynrychiolaeth, sef 278 o etholwyr i bob cynghorydd o'u cymharu â 366 o etholwyr i bob cynghorydd yn Llanmorlais. Rydym o'r farn y dylai lefel y gynrychiolaeth yn Llanmorlais gynyddu o 1 cynghorydd ac y dylai lefel y gynrychiolaeth ym Mhenclawdd leihau o 1 cynghorydd. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	**Ward**	**Etholwyr**	**Cynghorwyr**	**E/C***
Llanrhidian Uchaf	Penclawdd	1,946	6	324
	Llanmorlais	1,100	4	275
		3,046	**10**	**305**

*E/C – etholwyr i bob cynghorydd

10.13 Bydd Cymuned newydd Y Crwys yn cynnwys Ward bresennol Y Crwys yng Nghymuned Llanrhidian Uchaf. Ni fydd lefel bresennol y gynrychiolaeth ar gyfer Ward Y Crwys Cymuned Llanrhidian Uchaf o 4 cynghorydd yn ddigonol i'r Crwys weithredu'n effeithiol fel cyngor cymuned yn ei rhinwedd ei hun. Felly, rydym o'r farn mai lefel briodol y gynrychiolaeth ar gyfer y Gymuned hon o 1,229 o etholwyr fyddai 7 cynghorydd, gan roi cymhareb o 176 o etholwyr i bob cynghorydd.

10.14 Ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadau Cymunedol, mae Cymuned Llwchwr wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Garden Village, Kingsbridge, Llwchwr Isaf a Llwchwr Uchaf. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	**Ward**	**Etholwyr**	**Cynghorwyr**	**E/C***
Llwchwr	Garden Village	1,107	3	369
	Kingsbridge	2,176	5	435
	Llwchwr Isaf	1,794	4	449
	Llwchwr Uchaf	2,177	5	435
		7,254	**17**	**427**

*E/C – etholwyr i bob cynghorydd

10.15 Dan ein cynigion, bydd Ward Llwchwr Uchaf yn lleihau 70 i 2,105 o etholwyr. Rydym o'r farn bod nifer bresennol y cynghorwyr ar gyfer pob un o'r Wardiau yn y Gymuned yn darparu lefel briodol o gynrychiolaeth, ac felly nid ydym yn cynnig unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol presennol ar gyfer Cymuned Llwchwr. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	**Ward**	**Etholwyr**	**Cynghorwyr**	**E/C***
Llwchwr	Garden Village	1,107	3	369
	Kingsbridge	2,176	5	435
	Llwchwr Isaf	1,794	4	449
	Llwchwr Uchaf	2,105	5	421
		7,182	**17**	**422**

*E/C – etholwyr i bob cynghorydd

10.16 Ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadau Cymunedol, mae Cymuned Penllergaer wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol y Dwyrain a'r Gorllewin. Nid yw ein cynigion ar gyfer y Gymuned yn cynnwys trosglwyddo unrhyw etholwyr ac felly bydd y trefniadau etholiadol cymunedol yn parhau heb eu newid.

10.17 Ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadau Cymunedol, mae Cymuned Pennard wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Kittle a Southgate. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	**Ward**	**Etholwyr**	**Cynghorwyr**	**E/C***
Pennard	Kittle	540	3	180
	Southgate	1,725	11	157
		2,265	**14**	**162**

*E/C – etholwyr i bob cynghorydd

10.18 Dan ein cynigion, bydd Ward Kittle yn colli 2 etholwr gan ostwng i 538 a bydd Ward Southgate yn colli 1 etholwr ac yn gostwng i 1,724. Rydym o'r farn bod nifer bresennol y cynghorwyr ar gyfer pob Ward yn y Gymuned yn darparu lefel briodol o gynrychiolaeth, ac felly nid ydym yn cynnig unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol presennol ar gyfer Cymuned Pennard. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	**Ward**	**Etholwyr**	**Cynghorwyr**	**E/C***
Pennard	Kittle	538	3	179
	Southgate	1,724	11	157
		2,265	**14**	**162**

*E/C – etholwyr i bob cynghorydd

10.19 Nid yw Cymuned Pontlliw a Thircoed wedi'i rhannu'n wardiau at ddibenion etholiadau cymunedol ac mae ganddi 2,050 o etholwyr a gynrychiolir gan 10 o gynghorwyr, gyda chymhareb o 205 o etholwyr i bob cynghorydd. Dan ein cynigion bydd nifer yr etholwyr yn cynyddu 97 i 2,147 gyda chymhareb o 215 o etholwyr i bob cynghorydd. Nid ydym o'r farn bod y cynnydd hwn yn nifer yr etholwyr yn

ddigon sylweddol i ofyn am gynnydd yn nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli'r Gymuned, ac felly bydd y trefniadau etholiadol cymunedol yn parhau heb eu newid.

10.20 Nid yw Cymuned Cilâ Uchaf wedi'i rhannu'n wardiau at ddibenion etholiadau cymunedol ac mae ganddi 1,044 o etholwyr a gynrychiolir gan 10 o gynghorwyr, gyda chymhareb o 104 o etholwyr i bob cynghorydd. Dan ein cynigion bydd nifer yr etholwyr yn lleihau 3 i 1,041 gyda chymhareb o 104 o etholwyr i bob cynghorydd. Rydym wedi nodi'r nifer isel bresennol o etholwyr i bob cynghorydd yn y Gymuned hon, ac rydym yn poeni y gellir ystyried bod y Gymuned hon yn cael ei gorgynrychioli ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y byddai'r lleihad arfaethedig yn nifer yr etholwyr yn newid digon sylweddol i ofyn am leihad yn nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli'r Gymuned.

Trefniadau Etholiadol y Cyngor Bwrdeistref Sirol

10.21 Ar hyn o bryd mae gan adran etholiadol Llandeilo Ferwallt, sy'n cyd-ffinio â Chymuned Llandeilo Ferwallt, 2,788 o etholwyr a gynrychiolir gan 1 cynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i ffin Cymuned Llandeilo Ferwallt yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Llandeilo Ferwallt yn cynyddu i 2,791.

10.22 Ar hyn o bryd mae gan adran etholiadol Castell, sy'n cyd-ffinio â Chymuned Castell, 10,841 o etholwyr a gynrychiolir gan 4 cynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i ffin Cymuned Castell yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Castell yn disgyn i 10,649.

10.23 Ar hyn o bryd, mae gan adran etholiadol Clydach, sy'n cyd-ffinio â Chymuned Clydach, 5,923 o etholwyr a gynrychiolir gan 2 gynghorydd. Byddai'r newidiadau arfaethedig i ffiniau Cymuned Clydach yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Clydach yn cynyddu i 6,694.

10.24 Ar hyn o bryd, mae gan adran etholiadol Cocyd, sy'n cyd-ffinio â Chymuned Cocyd, 10,534 o etholwyr a gynrychiolir gan 4 cynghorydd. Byddai'r newidiadau arfaethedig i ffiniau Cymuned Cocyd yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Cocyd yn cynyddu i 10,759.

10.25 Ar hyn o bryd, mae gan adran etholiadol Cwmbwrla, sy'n cyd-ffinio â Chymuned Cwmbwrla, 6,229 o etholwyr a gynrychiolir gan 3 chynghorydd. Byddai'r newidiadau arfaethedig i ffiniau Cymuned Cwmbwrla yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Cwmbwrla yn disgyn i 6,160.

10.26 Ar hyn o bryd, mae gan adran etholiadol Dyfnant, sy'n cyd-ffinio â Chymuned Dyfnant, 3,600 o etholwyr a gynrychiolir gan 2 gynghorydd. Byddai'r newidiadau arfaethedig i ffiniau Cymuned Dyfnant yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Dyfnant yn cynyddu i 3,603.

10.27 Ar hyn o bryd, mae gan adran etholiadol Fairwood, sy'n cynnwys Cymuned Cilâ Uchaf a ward Y Crwys yng Nghymuned Llanrhidian Uchaf, 2,273 o etholwyr a

gynrychiolir gan 1 cynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i ffin Cymuned Cilâ Uchaf yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Fairwood yn disgyn i 2,270.

10.28 Ar hyn o bryd, mae gan adran etholiadol Gorseinon, sy'n cynnwys wardiau Canol Gorseinon a Dwyrain Gorseinon yng Nghymuned Gorseinon, 2,959 o etholwyr a gynrychiolir gan 1 cynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i ffin Ward Dwyrain Gorseinon yng Nghymuned Gorseinon yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Gorseinon yn disgyn i 2,994.

10.29 Ar hyn o bryd, mae gan adran etholiadol Glandŵr, sy'n cyd-ffinio â Chymuned Glandŵr, 4,696 o etholwyr a gynrychiolir gan 2 gynghorydd. Byddai'r newidiadau arfaethedig i ffin Cymuned Glandŵr yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Glandŵr yn cynyddu i 4,823.

10.30 Ar hyn o bryd, mae gan adran etholiadol Llangyfelach, sy'n cynnwys Cymunedau Llangyfelach a Phontlliw a Thircoed, 3,872 o etholwyr a gynrychiolir gan 1 cynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i ffiniau Cymunedau Llangyfelach a Phontlliw a Thircoed yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Llangyfelach yn cynyddu i 3,951.

10.31 Ar hyn o bryd, mae gan adran etholiadol Llansamlet, sy'n cynnwys Cymunedau Llansamlet a Birchgrove, 10,793 o etholwyr a gynrychiolir gan 4 cynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i ffiniau Cymunedau Llansamlet a Birchgrove yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Llansamlet yn disgyn i 10,130.

10.32 Ar hyn o bryd, mae gan adran etholiadol Treforys, sy'n cyd-ffinio â Chymuned Treforys, 13,194 o etholwyr a gynrychiolir gan 5 cynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i ffin Cymuned Treforys yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Treforys yn disgyn i 13,070.

10.33 Ar hyn o bryd, mae gan adran etholiadol Mynyddbach, sy'n cyd-ffinio â Chymuned Mynyddbach, 7,131 o etholwyr a gynrychiolir gan 3 chynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i ffin Cymuned Mynyddbach yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Mynyddbach yn disgyn i 7,068.

10.34 Ar hyn o bryd, mae gan adran etholiadol Penderi, sy'n cyd-ffinio â Chymuned Penderi, 8,268 o etholwyr a gynrychiolir gan 3 chynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i ffin Cymuned Penderi yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Penderi yn disgyn i 8,112.

10.35 Ar hyn o bryd, mae gan adran etholiadol Pennard, sy'n cyd-ffinio â Chymuned Pennard, 8,268 o etholwyr a gynrychiolir gan 3 chynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i ffin Cymuned Pennard yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Pennard yn disgyn i 8,112.

10.36 Ar hyn o bryd, mae gan adran etholiadol Penyrheol, sy'n cynnwys Wardiau Gorllewin Gorseinon a Phenyrheol yng Nghymuned Gorseinon a Chymuned Pengelli-ddrain a Waungron, 4,500 o etholwyr a gynrychiolir gan 2 gynghorydd. Byddai'r newidiadau arfaethedig i ffiniau Cymunedau Gorseinon a Phengelli-ddrain a Waungron yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Penyrheol yn cynyddu i 4,572.

10.37 Ar hyn o bryd, mae gan adran etholiadol Townhill, sy'n cyd-ffinio â Chymuned Townhill, 5,994 o etholwyr a gynrychiolir gan 3 chynghorydd. Byddai'r newidiadau arfaethedig i ffiniau Cymuned Townhill yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Townhill yn cynyddu i 6,059.

10.38 Ar hyn o bryd, mae gan adran etholiadol Llwchwr Uchaf, sy'n cyd-ffinio â Ward Llwchwr Uchaf yng Nghymuned Llwchwr, 2,177 o etholwyr a gynrychiolir gan 1 cynghorydd. Byddai'r newidiadau arfaethedig i ffiniau Cymuned Llwchwr yn gweld nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Llwchwr Uchaf yn disgyn i 2,105.

10.39 Ar gyfer yr holl adrannau etholiadol a nodir uchod, rydym o'r farn nad yw'r newidiadau yn nifer yr etholwyr o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i ffiniau mor sylweddol fel bod angen cynyddu neu leihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli pob adran etholiadol ar hyn o bryd. Nodwyd gennym y byddwn yn cynnal arolwg o drefniadau etholiadol yr holl brif gynghorau yng Nghymru yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, a bryd hynny byddwn yn edrych yn fanwl ar drefniadau etholiadol Cyngor Dinas a Sir Abertawe, ac yn ystyried unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r newidiadau arfaethedig hyn i ffiniau cymunedol.

10.40 Rydym wedi cynnig newidiadau i ffiniau Cymunedau Birchgrove, Clydach, Cocyd, Dynfant, Glandŵr, Llangyfelach, Treforys, Mynyddbach, Penderi a Chilâ Uchaf sy'n croesi ffiniau etholaethau seneddol Gower CC, Swansea East BC a Swansea West BC. Caiff y cynigion hyn eu hadrodd i'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru faes o law.

11. CYDNABYDDIAETHAU

11.1 Dymunwn ddiolch i Gyngor Dinas a Sir Abertawe a'r Cynghorau Cymuned am eu cymorth ac i bob unigolyn a chorff a gyflwynodd gynrychiolaethau i ni.

12. Y CAMAU NESAF

12.1 Trwy ystyried adolygu'r ffiniau cymunedol yn Ninas a Sir Abertawe a chyflwyno ein hargymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru, rydym wedi cyflawni ein rhwymedigaeth statudol dan y Ddeddf.

12.2 Nawr, cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru yw rhoi'r cynigion hyn ar waith, naill ai fel y'u cyflwynwyd gan y Comisiwn neu gydag addasiadau, fel y mae'n gweld orau, ac os bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn penderfynu rhoi'r cynigion hyn ar waith gydag addasiadau, gallai gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal arolwg pellach.

12.3 Dylid cyfeirio unrhyw gynrychiolaethau pellach ynghylch y materion yn yr adroddiad hwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid eu gwneud cyn gynted â phosibl, a heb fod yn hwyrach na chwe wythnos o'r dyddiad y bydd y Comisiwn yn cyflwyno ei argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid cyfeirio'r cynrychiolaethau at:

Tîm Democratiaeth
Is-adran Polisi Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

MR P J WOOD (Cadeirydd)

Y PARCH. HYWEL MEREDYDD DAVIES BD (Dirprwy Gadeirydd)

Mr D J BADER (Aelod)

E H LEWIS BSc. DPM FRSA FCIPD (Ysgrifennydd)

Chwefror 2010

GWEINIDOGION CYMRU

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 RHAN IV

CYFARWYDDYD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU (ADOLYGU FFINIAU CYMUNEDAU) (DINAS A SIR ABERTAWE) 2007

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddyd canlynol i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wrth arfer y pwerau a drosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 [1] a chaiff y pwerau hynny eu harfer bellach gan Weinidogion Cymru [2]:

1. Yn y Cyfarwyddyd hwn:

mae "y Ddeddf" yn golygu Deddf Llywodraeth Leol 1972;

mae "y Comisiwn" yn golygu'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

2. Yn unol ag adran 56(1) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad o ffiniau cymunedau yn Dinas a Sir Abertawe at ddibenion ystyried a ddylid gwneud y cyfryw gynigion ai peidio mewn perthynas â'r ardal a adolygir fel y'u hawdurdodir gan adran 54 o'r Ddeddf, a pha gynigion, os o gwbl, i'w gwneud; a rhaid i'r Comisiwn, os yw'n barnu bod hynny'n briodol, lunio'r cyfryw gynigion yn unol â hynny.

Dr Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

19/12/07

Dyddiad:

---

[1] 1972 3c.70; diwygiwyd adran 56 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994

[2] *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a drosglwyddodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd swyddogaethau'r Cynulliad eu trosglwyddo wedyn i Weinidogion Cymru gan atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. (2006 c.38).

Crynodeb o'r Cynrychiolaethau a Dderbyniwyd mewn Ymateb i'r Cynigion Drafft

Dywedodd **Cyngor Dinas a Sir Abertawe** fod Aelodau'r Cyngor wedi cyfarfod i ystyried Adroddiad y Comisiwn ar y Cynigion Drafft ac wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:

- Roedd yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Llangyfelach a Phontlliw a Thircoed er mwyn cynnwys pentref cyfan Tircoed yng Nghymuned Pontlliw a Thircoed;
- Roedd mwyafrif yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn mewn perthynas â'r ffin rhwng Cymunedau Llangyfelach a Mynyddbach i gynnwys ystad gyfan Bryn Hedydd yng Nghymuned Llangyfelach;
- Roedd yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Bonymaen a Llansamlet er mwyn cynnwys Ystadau Diwydiannol Llansamlet a Winch Wen i gyd yng Nghymuned Llansamlet;
- Roedd mwyafrif yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Penllergaer a Llwchwr er mwyn trosglwyddo Ysbyty Garngoch a'r ardal gyfagos i Gymuned Penllergaer;
- Roedd yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Dyfnant a Chilâ Uchaf er mwyn trosglwyddo'r eiddo ar ben draw Ddol Lane i Gymuned Dyfnant;
- Roedd mwyafrif yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Clydach a Threforys er mwyn trosglwyddo ardal Caermawr i Gymuned Clydach;
- Roedd yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Townhill a Chastell er mwyn trosglwyddo Nicander Place i Gymuned Townhill;
- Roedd yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Cwmbwrla a Phenderi er mwyn trosglwyddo Brenig Road i gyd i Gymuned Penderi;
- Roedd yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Phengelli-ddrain a Waungron er mwyn trosglwyddo 4 eiddo i Gymuned Pengelli-ddrain a Waungron;
- Roedd yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr er mwyn trosglwyddo Clos y Nant, Heol Pant y Dŵr a Heol Pen y Cae i gyd i Gymuned Gorseinon. Nodwyd bod yr eiddo dan sylw wedi'i gynnwys yn adran etholiadol Penyrheol (Gorseinon) ar gam;
- Roedd yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr er mwyn trosglwyddo Parc Busnes Maerdy a Kingsbridge i Gymuned Llwchwr;
- Roedd yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Phenllergaer er mwyn trosglwyddo Fferm Gorswadden i gyd yng Nghymuned Gorseinon.
- Roedd yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Glandŵr a Threforys i gynnwys Ystad Ddiwydiannol Plasmarl i gyd yng Nghymuned Treforys. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau o'r farn y dylid diwygio'r ffin arfaethedig i ddilyn Beaufort Road, gan adael y cyfleusterau chwaraeon i'r de yng Nghymuned Glandŵr;
- Roedd yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Llangyfelach a Threforys er mwyn trosglwyddo eiddo i'r gogledd o Pant Lasau Road a Mynydd Gelliwastad Road i Gymuned Llangyfelach. Roedd yr Aelodau

hefyd o'r farn efallai yr hoffai'r Comisiwn ystyried y dewis o drosglwyddo'r ardal i Gymuned Mawr yn lle hynny;

- Roedd mwyafrif yr Aelodau yn erbyn cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Birchgrove a Chlydach er mwyn trosglwyddo pentref cyfan Glais i Gymuned Llansamlet. Cyflwynwyd gwrthgynnig i drosglwyddo dosbarth etholiadol Glais yng Nghymuned Birchgrove ac Adran Etholiadol Llansamlet i Gymuned Clydach ac Adran Etholiadol Clydach;
- Roedd yr Aelodau yn erbyn cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Cocyd a Townhill i gynnwys ardal fusnes gyfan Webbons Way yng Nghymuned Cocyd. Roedd yn well gan yr Aelodau gadw'r ffin bresennol;
- Roedd yr Aelodau yn erbyn cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Cocyd a Phenderi i gynnwys Parc Manwerthu Fforest-fach i gyd, a datblygiad tai newydd cyfagos, yng Nghymuned Cocyd. Roedd yn well gan yr Aelodau gadw'r ffin bresennol;
- Roedd yr Aelodau yn erbyn cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Cocyd a Phenderi i gynnwys yr eiddo yn Beaufort Court, Richmond Way, Cranmer Court, Courtlands Way a Chantry Court yng Nghymuned Cocyd. Cyflwynodd yr Aelodau wrthgynnig i gynnwys yr eiddo a effeithir gan yr anghysondeb i'r ffin yng Nghymuned Penderi;
- Cynigodd yr Aelodau y dylid trosglwyddo pob eiddo ar Heol Calfin, Ffordd y Brain a Rhodfa'r Brain o Gymuned Cocyd i Gymuned Penderi.

Mewn cynrychiolaeth bellach, cynigodd y Cyngor y dylid trosglwyddo eiddo 189 – 195 a 209 – 215 Llangyfelach Road, 1 – 10 Hafod Park, 39 – 75 Pentremawr Road, 1 -10 St. John's House a 43 – 64 Odo Street o Gymuned Castell i Gymuned Glandŵr.

Roedd **Cyngor Cymuned Clydach** yn erbyn cynnig y Comisiwn i gynnwys pentref cyfan Glais yng Nghymuned Birchgrove. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith bod gan y pentref gysylltiad traddodiadol a hanesyddol â Chlydach, ei fod yn agosach at Glydach nag at Birchgrove a bod preswylwyr y pentref yn defnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael yng Nghlydach yn hytrach na'r rheiny yn Birchgrove neu Lansamlet. Mae'r cyfleusterau hyn yn cynnwys y Ganolfan Iechyd, Llyfrgell, Neuadd Gymunedol a Chanolfan Adnoddau Forge Fach. Mae Cyngor Cymuned Clydach yn cael ei gynrychioli ar Ymddiriedolaeth Datblygu Glais ac mae wedi rhoi grantiau i'r Ymddiriedolaeth ar fwy nag un achlysur. Roedd y Cyngor o blaid cynnig y Comisiwn i drosglwyddo Caermawr i'w Cymuned o Gymuned Treforys, ond yn siomedig nad oedd y cynnig hwn yn ymestyn i Ben-y-Rhedyn. Gwnaethant ddadlau y byddai preswylwyr Pen-y-Rhedyn, gan gynnwys Glofa Hills, yn cael budd o'r cyfleusterau yng Nghymuned Clydach.

Roedd y Cyngor o'r farn y dylid trosglwyddo ardal Baran Carnllechart, Gellionnen i'w Cymuned gan y byddai eu polisi ar lwybrau troed o fudd i'r ardal hon.

Roedd **Cyngor Tref Gorseinon** o blaid pob un o gynigion y Comisiwn mewn perthynas â'u ffin Gymunedol. O ran y trefniadau etholiadol ôl-ddilynol, roedd y Cyngor o'r farn y byddai cynyddu cynrychiolaeth Gorllewin Gorseinon o 3 i 4 aelod yn creu cydbwysedd gwell o etholwyr i gynghorwyr ar draws Wardiau'r Cyngor, gan gadw'r lefel gynrychiolaeth bresennol.

Roedd **Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf** o'r farn y byddai angen cynnal trafodaethau pellach gydag etholaeth Ward Y Crwys cyn y gallai'r Cyngor gyflwyno barn ar awgrym y

Comisiwn y dylai Ward Y Crwys ffurfio Cymuned newydd. Roedd y Cyngor hefyd yn siomedig nad oedd y Comisiwn wedi gweithredu yn ôl eu hawgrym i adlinio'r ffin rhwng Wardiau Cymunedol Llanmorlais a Phenclawdd, gan dynnu sylw at y ffaith bod preswylwyr yr ardal dan sylw yn ystyried eu hunain yn rhan o Ward Llanmorlais ac yn gorfod mynd heibio i'r orsaf bleidleisio yn Llanmorlais i bleidleisio ym Mhenclawdd.

Roedd **Cyngor Tref Llwchwr** yn erbyn cynnig y Comisiwn i newid y ffin rhwng Cymunedau Penllergaer a Llwchwr yn Ysbyty Garngoch am y rhesymau canlynol:

- Nid oedd unrhyw sail hanesyddol dros drosglwyddo Ysbyty Garngoch i Benllergaer gan mai Comin Gorseinon oedd enw Penllergaer yn wreiddiol;
- Mae gan Ysbyty Garngoch gysylltiad hanesyddol a ffisegol â Chymuned Llwchwr;
- Mae gan Ysbyty Garngoch gysylltiadau agos ag aneddiadau Garden Village a Kingsbridge;
- Mae Ysbyty Garngoch yn cydweithio'n agos â Chyngor Tref Llwchwr a Chymuned Llwchwr trwy roddion elusennol a rhoddion eraill a chyllid ar gyfer y ganolfan clefyd Alzheimer;
- Er bod yr A484 yn ffurfio ffin adnabyddadwy, mae'n bwysicach ystyried buddiannau'r Gymuned.

Cynigodd y Cyngor adliniad arall i'r ffin rhwng Penllergaer a Llwchwr a fyddai'n gadael Ysbyty Garngoch yng Nghymuned Llwchwr.

Mewn perthynas â chynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr, roedd y Cyngor yn poeni ynghylch cholli eiddo a phraesept sylweddol. Roeddent o'r farn bod gan yr ardal gysylltiadau hanesyddol â Chymuned Llwchwr ac y dylai'r cysylltiadau hyn barhau. Gwnaethant gyflwyno cynnig arall i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr i ddilyn canol Heol Pentre Bach i'w chyffordd â Frampton Road ac yna ar hyd canol Frampton Road i'w chyffordd ag Alexandra Road, a fyddai'n mynd i'r afael â'r anghysondeb o ran cael mynediad at eiddo drwy gymuned gyfagos.

Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i gynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr yn ardal hen waith dur Bryngwyn.

Cynigodd **Cyngor Cymuned Mawr** y dylid cynnwys y tir ar hyd Pant Lasau Road yng Nghymuned Mawr. Roeddent hefyd o'r farn y dylid cynnwys yr ardal i'r gogledd o'r M4 ar Llangyfelach Road yng Nghymuned Mawr, gan fod yr M4 yn ymddwyn fel ffin naturiol. Dylid cynnwys y ffermydd a'r tai yng Nghwm Dulais, y ceir mynediad atynt o'r briffordd sy'n arwain o Felindre i Garswllt, yng Nghymuned Mawr.

Roedd y **Gwir Anrhydeddus Alan Williams AS** yn erbyn cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Cocyd a Townhill ac yn erbyn yr awgrym y dylid rhannu Cymuned Townhill yn ddwy gymuned newydd. Roedd y blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Cocyd a Phenderi.

Roedd **Edwina Hart AC** o blaid cynnig Cyngor Cymuned Clydach y dylid cynnwys Baran Carnllechart yng Nghymuned Clydach, gan ei bod o'r farn bod gan Gyngor Cymuned Clydach y polisïau a'r adnoddau i reoli'r llwybrau troed yn yr ardal. Roedd hefyd yn erbyn y cynigion i adlinio ffin Cymuned Llwchwr, gan ei bod o'r farn y gallai'r lleihad canlyniadol

i'r sylfaen dreth gael effaith niweidiol ar reoli a chynnal a chadw'r Neuadd Les. Dywedodd nad oedd ganddi dystiolaeth o unrhyw anfodlonrwydd â'r trefniadau presennol.

Roedd **Andrew Davies AC** o'r farn bod Cymuned Townhill yn gymuned arbennig na ddylid ei rhannu. Dywedodd nad oedd y preswylwyr a oedd wedi ymweld â'i swyddfa yn gwahaniaethu rhwng Mayhill a Townhill ond, yn hytrach, yn cyfeirio at y Gymuned gyfan fel 'the Hill'.

Roedd **Plaid Lafur Ward Penderi** yn anghytuno â chynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Cocyd a Phenderi, er mwyn trosglwyddo Parc Manwerthu Heol Pontarddulais a'r tai yn Llwyn Teg i Gymuned Cocyd. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith y byddai'r newid hwn yn effeithio ar y ffin seneddol rhwng Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe.

Roeddent hefyd yn anghytuno â chynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Cocyd a Phenderi er mwyn trosglwyddo Beaufort Court, Richmond Way, Cranmer Court, Chantry Court a Courtlands Way i Gymuned Cocyd. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith y byddai'r newid hwn yn effeithio ar y ffin seneddol rhwng Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe.

Roeddent yn cytuno â chynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Penderi a Chwmbwrla er mwyn trosglwyddo Brenig Road i Gymuned Penderi, gan y ceir mynediad at Brenig Road trwy Benderi a'i bod yn gyfleus i breswylwyr bleidleisio yn Ward Penderi.

Roedd **Plaid Lafur Ward Townhill** yn erbyn yr awgrym y dylid rhannu Cymuned Townhill yn Gymunedau Townhill a Mayhill ar wahân, gan nad oeddent o'r farn y byddai rhannu'r gymuned gydlynol bresennol o unrhyw fudd i'r ardal leol na'r pleidleiswyr. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith bod gan Gymuned bresennol gyfan Townhill yr un math o dai ac anghenion economaidd-gymdeithasol a'i bod yn rhan o ardal Cymunedau yn Gyntaf ac yn cael ei chwmpasu gan Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedol.

Roedd y **Cynghorydd R Speht** o'r farn na ddylai cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Glandŵr a Threforys gynnwys y tir i'r de o Beaufort Road sy'n cynnwys cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Tynnodd sylw at y ffaith bod y cyfleusterau hyn, fel RTB Glandŵr, Clwb Chwaraeon Plasmarl a Chlwb Chwaraeon a Chymdeithasol Glandŵr yn cael eu defnyddio gan breswylwyr Glandŵr a Phlasmarl a phe byddai'r cyfleusterau hyn yn cael eu trosglwyddo i Dreforys, byddai'r cysylltiad hanesyddol â Glandŵr a Phlasmarl yn cael ei golli. Awgrymodd y dylid diwygio'r ffin arfaethedig i ddilyn Beaufort Road.

Dywedodd y **Cynghorydd Mike Hedges** nad oedd yn hoff o gynigion y Comisiwn i adlinio'r ffiniau rhwng Cymunedau Treforys, Clydach a Llangyfelach. Tynnodd sylw at y ffaith bod cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Treforys a Chlydach yn golygu y ceir mynediad at ardal Pen-y-Rhedyn trwy Glydach yn unig erbyn hyn, er ei bod yn Nhreforys. Hefyd, tynnodd sylw at y ffaith y ceir mynediad at ardal Birmingham Mount trwy Gymuned Glandŵr yn unig.

Dywedodd y **Cynghorydd Wendy Fitzgerald** y dylai'r Comisiwn ystyried adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Penllergaer a Llangyfelach er mwyn cynnwys Coed Cwm Penllergaer i

gyd a hen Ystad Dillwyn Llewelyn yng Nghymuned Penllergaer, oherwydd eu cysylltiadau hanesyddol â Phenllergaer

Roedd y **Cynghorydd W Evans** yn erbyn cynnig y Comisiwn i newid y ffin rhwng Cymunedau Penllergaer a Llwchwr. Tynnodd sylw at y ffaith bod yr A484 yn datgymalu Cymuned Llwchwr i gyd o Gadle i Bont Llwchwr, ac roedd o'r farn y gallai'r newid arfaethedig arwain at geisiadau tebyg gan Benderi, Cocyd a Thre-gŵyr i ymestyn eu ffiniau cymunedol hyd at yr A484, gan arwain at golli llawer o dir a chael effaith niweidiol at aneddiadau Garden Village, Kingsbridge a Llwchwr. Roedd hefyd o'r farn nad oedd comin Garngoch yn rhan o Gymuned Penllergaer yn hanesyddol.

Roedd y **Cynghorydd Dennis James** o blaid argymhelliad y Comisiwn i gynnwys pentref cyfan Glais yn adran etholiadol Llansamlet yn Ninas a Sir Abertawe. Dywedodd fod yr anghysondeb o raniad yn y pentref wedi gadael y rhan leiaf ar ei phen ei hun yng Nghlydach, ac nid oedd ganddi unrhyw gysylltiadau hanesyddol â'r gymuned honno. Dywedodd ei fod wedi derbyn llawer o gynrychiolaethau yn y gorffennol i ddod â dwy ran y pentref at ei gilydd yn adran etholiadol Llansamlet.

Gwnaeth y **Cynghorydd Keith Marsh** dri chynnig ar gyfer mân newidiadau i ffin Cymuned Llandeilo Ferwallt. Roedd y rhaid fel a ganlyn:

- Y dylid symud y ffin rhwng Cymunedau Llandeilo Ferwallt a Phennard tua'r gorllewin er mwyn cynnwys dwy annedd ar y traeth yng Nghymuned Llandeilo Ferwallt, gan y ceir mynediad at y ddwy annedd drwy'r Gymuned honno;
- Y dylid symud y ffin rhwng Cymunedau Llandeilo Ferwallt a Phennard er mwyn cynnwys y cytiau cŵn ar Gomin Barlands yng Nghymuned Llandeilo Ferwallt, gan y ceir mynediad at y cytiau drwy'r Gymuned honno; ac
- Y dylid symud y ffin rhwng Cymunedau Llandeilo Ferwallt a'r Mwmbwls er mwyn cynnwys Bae Caswell cyfan, gan gynnwys y 3 siop, yng Nghymuned Llandeilo Ferwallt.

Roedd y **Cynghorydd Nick Bradley** yn erbyn yr awgrym y dylid rhannu Cymuned Townhill yn ddwy Gymuned newydd, sef Townhill a Mayhill. Roedd o'r farn bod cwlwm cryf rhwng preswylwyr ledled y Gymuned bresennol. Dywedodd fod y trefniadau presennol yn gweithio'n dda ac yn cael eu cefnogi gan yr etholwyr. Byddai rhannu'r Gymuned yn ymrannol ac yn ddiddiben ac yn groes i gyllid Cymunedau yn Gyntaf ac Amcan 1, a oedd wedi pwysleisio undod y Gymuned bresennol.
Roedd y **Cynghorydd Billy Jones** yn erbyn yr awgrym y dylid rhannu Cymuned bresennol Townhill i greu Cymunedau ar wahân Townhill a Mayhill. Roedd o'r farn bod Cymuned Townhill wedi'i hadnabod fel "the Hill" erioed, gyda chyfleusterau ac isadeiledd yn addas ar gyfer un gymuned.

Cynigiodd y **Cynghorydd Veronyca Bates-Hughes, y Cynghorydd James Kelleher a'r Cynghorydd Keith Morgan** y newidiadau canlynol i Gymuned Cocyd, a ddylai naill ai gwella mynediad i breswylwyr at y gorsafoedd pleidleisio neu wneud y ffin yn gliriach:

- Y dylid trosglwyddo Heol Iscoed, Heol Islwyn a Llwyn Teg o Gymuned Penderi i Gymuned Cocyd;
- Y dylid trosglwyddo Heol Calfin, Ffordd y Brain a Rhodfa'r Brain o Gymuned Cocyd i Gymuned Penderi;

- Y dylid trosglwyddo Beaufort Court, Burgley Court, Cantref Court, Chantry Court, Courtlands Way, Cranmer Court, Hatfield, Lancaster Court, Latimer Court a Richmond Way o Gymuned Cocyd i Gymuned Penderi;
- Y dylid trosglwyddo Webbons Way i gyd o Gymuned Cocyd i Gymuned Townhill.

Mae Cocyd yn Gymuned lled-wledig gyda ffermydd ac aneddiadau arunig ac felly mae'n anoddach darparu gwasanaeth o lefel uchel nag i'r Cymunedau mwy trefol yn Townhill a Phenderi. Felly, dylai Cocyd fod â chymhareb lai o etholwyr i gynghorwyr na'r ddwy gymuned arall, tra bod cynigion y Comisiwn yn cael yr effaith gyferbyniol.

Roedd **Yvonne Jardine (Cadeirydd Ward Llansamlet)** o blaid argymhelliad y Comisiwn i gynnwys pentref cyfan Glais yn adran etholiadol Llansamlet yn Ninas a Sir Abertawe (sy'n cynnwys Cymunedau Llansamlet a Birchgrove). Roedd o'r farn nad oedd gan bentref Glais unrhyw gysylltiadau hanesyddol â Chlydach a bod preswylwyr y pentref o blaid y cynnig i uno eu pentref yn adran etholiadol Llansamlet.

Roedd **preswylydd o Glais** o blaid argymhelliad y Comisiwn i gynnwys pentref cyfan Glais yn adran etholiadol Llansamlet yn Ninas a Sir Abertawe. Hefyd, cyflwynodd gopïau o'r llythyr safonol canlynol a lofnodwyd gan 63 o breswylwyr o bentref Glais:

> *Annwyl Syr*
>
> *Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gofnodi fy nghefnogaeth i gynnig Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i uno pentref cyfan Glais yn Ward Llansamlet ac Etholaeth Dwyrain Abertawe.*
>
> *Yn gywir*

Roedd **preswylydd o Glais** o blaid argymhelliad y Comisiwn i gynnwys pentref cyfan Glais yn adran etholiadol Llansamlet yn Ninas a Sir Abertawe a dywedodd fod cefnogaeth yn y pentref i'r newid hwn i'r ffin. Dywedodd fod anghysondeb y rhaniad yn y pentref wedi gadael y rhan leiaf ar ei phen ei hun ers amser maith, a bod pentref Glais wedi bod â chysylltiad hanesyddol â Llansamlet erioed, gan ddyddio'n ôl 100 mlynedd trwy ei eglwys a'i ysgol.

Roedd **preswylydd o Glais** o blaid argymhelliad y Comisiwn i gynnwys pentref cyfan Glais yn adran etholiadol Llansamlet yn Ninas a Sir Abertawe. Roedd o'r farn bod rhan leiaf y pentref wedi'i hynysu oherwydd ei lleoliad anghysbell mewn perthynas â phentref Clydach.

Roedd **preswylydd o Townhill** o blaid y cynnig i rannu Cymuned bresennol Townhill i ffurfio dwy Gymuned ar wahân, sef Townhill a Mayhill. Roedd o'r farn bod cymuned wahaniaethol ym Mayhill a oedd yn cael ei chydnabod yn gyffredinol gan breswylwyr Mayhill a Townhill, fel ei gilydd. Roedd y trefniant presennol gyda 3 chynghorydd yn cwmpasu Townhill i gyd yn golygu y gallai problemau Mayhill gael eu colli, ac felly roedd o'r farn y byddai'n well i Mayhill fod â'i chynghorydd ei hun, a fyddai'n ymgyfarwyddo â phroblemau Mayhill ac yn mynd i'r afael â nhw.

Roedd **preswylydd o Townhill** o blaid y cynnig i rannu Cymuned bresennol Townhill i ffurfio dwy Gymuned ar wahân, sef Townhill a Mayhill. Roedd o'r farn y dylai fod un

cynghorydd yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â phreswylwyr Mayhill yn unig. Tynnodd sylw at y ffaith bod gan Mayhill ei chyfleusterau amlwg ei hun, fel siopau, canolfannau cymunedol a theuluol ac ysgol ac ati. Roedd preswylwyr Mayhill yn siomedig â'r trefniadau etholiadol presennol ac nid oeddent yn gwybod pwy oedd eu cynghorwyr.

Roedd **preswylydd o Gilâ Uchaf** o blaid yr awgrym i rannu Cymuned bresennol Townhill i ffurfio Cymunedau ar wahân Townhill a Mayhill, ac roedd yn cytuno â llinell awgrymedig y Comisiwn ar gyfer y ffin. Dywedodd fod ei brofiad yn cefnogi'r farn bod preswylwyr Mayhill yn ystyried eu hunain yn rhan o Mayhill yn hytrach na Townhill. Tynnodd sylw at y ffaith bod gan Mayhill a Townhill wasanaethau bws ar wahân i ganol Abertawe. Roedd o'r farn y byddai cymunedau ar wahân yn arwain at lywodraethu gwell ar gyfer preswylwyr Mayhill a Townhill, fel ei gilydd. Gwnaethant gyflwyno deiseb hefyd: *Dylid datgan ardal Mayhill yn gymuned ar wahân i Townhill gan fod Mayhill wedi bod â'i hunaniaeth ei hun erioed, trwy ei chyfleusterau cymunedol ei hun, gan gynnwys siopau, ysgol a chanolfan gymunedol, sy'n ei gwahaniaethu oddi wrth weddill Townhill ac yn ei gwneud yn hunangynhaliol. Mae angen i bobl y tu allan i'r ardal gydnabod bod Mayhill yn wahanol i Townhill, yn yr un modd ag y mae'r rheiny sy'n byw yma.* **198 o lofnodion**

Crynodeb o'r Cynrychiolaethau a Dderbyniwyd mewn Ymateb i'r Cynigion Drafft Pellach

Dywedodd **Cyngor Dinas a Sir Abertawe** fod Aelodau'r Cyngor wedi cyfarfod i ystyried Adroddiad y Comisiwn ar y Cynigion Drafft Pellach ac wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:

- Roedd yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Llandeilo Ferwallt a Phennard, er mwyn trosglwyddo eiddo Brookside, The Orchards a thai allan ar Gomin Barlands o Gymuned Pennard i Gymuned Llandeilo Ferwallt;
- Roedd yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Llandeilo Ferwallt a Phennard, er mwyn trosglwyddo eiddo Ship Cottage a Beaufort House o Gymuned Pennard i Gymuned Llandeilo Ferwallt; ac
- Roedd yr Aelodau o blaid cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Castell a Glandŵr, er mwyn trosglwyddo Odo Street, Hafod Park, Pentremawr Road a rhifau 189 i 215 Llangyfelach Road o Gymuned Castell i Gymuned Glandŵr.

Roedd **Cyngor Cymuned Llangyfelach** o blaid casgliad y Comisiwn na ddylid adlinio'r ffin rhwng Cymunedau Llangyfelach a Mawr i ddilyn yr M4, ac y dylid cadw'r ffin bresennol.

Dywedodd **Cyngor Cymuned Clydach** fod ardaloedd Baran Carnllechart a Gellionnen wedi bod yn rhan o Ward Gellionnen a Phlwyf Rhyndwyglydach yn hanesyddol. Roedd yr ardal hon wedi cynnwys Banc John a Baron Mountain Road ac wedi dilyn Afon Clydach Isaf mor bell i'r de â Phont-y-Lôn ger y ffin bresennol rhwng Mawr a Chlydach. Roedd y Cyngor o'r farn, er bod Banc John a Baron Mountain Road yn rhan o Gastell-nedd Port Talbot erbyn hyn, dylid trosglwyddo gweddill yr ardal hon sydd yn Abertawe, gan gynnwys Fferm Llwyn Ifan, dwy fferm Nant Moel, Tŷ Felin Uchaf a Fferm Llechart, sy'n rhan o Gymuned Mawr ar hyn o bryd, i Gymuned Clydach. Roedd y Cyngor o'r farn y byddant mewn sefyllfa well i gynnal a chadw ac uwchraddio'r llwybrau troed yn yr ardal na Chyngor Cymuned Mawr, gan fod ganddynt sylfaen refeniw fwy.

Dywedodd **Cyngor Cymuned Pennard** fod newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng cymunedau Pennard a Llandeilo Ferwallt yng Nghomin Barland yn rhannu tir yn perthyn i Fferm Kittle Hill. Awgrymodd y Cyngor newid aliniad y ffin, a fyddai'n gadael yr holl dir yn perthyn i Fferm Kittle Hill yng Nghymuned Pennard.

Dywedodd **preswylydd o Glydach** fod y llwybrau troed ym Maran Carnllechart, Gellionnen wedi bod yn rhan o Glydach yn hanesyddol, ac y dylid eu trosglwyddo o Gymuned Mawr i Gymuned Clydach. Er mwyn cyflawni hyn, awgrymodd y dylid adlinio'r ffin i ddilyn Afon Clydach Isaf tua'r gogledd nes iddi gyrraedd y ffin sirol rhwng Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Roedd o'r farn, yn ogystal â chysylltiad hanesyddol yr ardal hon â Chlydach, bod gan Gyngor Cymuned Clydach adnoddau gwell ac felly eu bod yn gallu cynnal a chadw'r llwybrau troed yn well.